



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

CYDYMAITH Y CYMRO.


E. T. DAVIES, B.A.

4/6

BE from Thornton

16/5/23

3152 f. 1





9

10

*Gda chfari cuedi; dimth y
allur.*
CYDYMAITH Y CYMRO:

NEU

LAWLYFR I'R GYMRAEG.

GAN Y

PARCH. E. T. DAVIES, B.A.,


FICER EGLWYS DEWI SANT, LLYNLEIFIAD.

Trydydd Argraphiad—Diwygiedig a Helaethedig.

Llynleiffad:

ARGRAPHYD GAN ISAAC FOULKES, 18, BRUNSWICK STREET.

1881



CYMMERADWYAETHAU A THYSTIOLAETHAU
I'R DDAU ARGRAPHIAD CYNTAF.

“It aims successfully at the accomplishment of a very desirable end. It does you credit. It will give me pleasure to call the attention of candidates for Orders—those who have to prepare themselves for a Welsh examination—to your valuable manual.”—*The Ven. J. GRIFFITH, B.D., Archdeacon of Llandaff, and Welsh Examining Chaplain to the Bishop.*

“I have perused your book with much interest, and consider that the study of it would be advantageous not only to beginners in Welsh, but also to many who know the language practically, but have not taken sufficient pains to acquire a correct orthography.”—*The Rev. W. JOHNSON, M.A., Welsh Examining Chaplain to the Bishop of Bangor.*

“Having glanced over its pages, I am exceedingly pleased with its simple unpretending character, while it is at the same time a really valuable compendium of what we daily need to know. Whenever I can recommend it, I shall certainly do so.”—*The late Rev. R. JONES, M.A., Rotherhithe.*

“I have read with much pleasure your handbook on Welsh Orthography. The system you advocate is chaste common sense and a rational one—avoiding what is pedantic on the one hand, and what is illogical on the other. The book cannot but be of great service not only to beginners, but also to all Welsh writers that have not adopted a definite style of orthography.”—*The Rev. ELLIS ROBERTS (Ellis Wym o Wyrfa) Llan-gwm,*

"I have read "*Cydymaith y Cymro*" over very carefully, and with much interest. It is full of valuable and instructive information as to the peculiarities of Welsh Orthography. The advantage of a careful and attentive perusal of your book cannot fail to be of great service to any one desirous of becoming a writer in the Welsh language. The manner in which you explain the difference between words sounded alike is highly satisfactory. No one who has thoroughly mastered your book need be in any perplexity as to the correct rendering of such words. Within a short compass may be found an abundance of instructive information."—*The Rev. T. WALTERS, D.D., Llansamlet.*

"Nid yw yr Awdwr wedi gosod ei feddwl ar uchel bethau. Yr hyn a geisid yn y gystadleuaeth i ba un yr anfonwyd ef, ydoedd, 'Crynhoad byr a chynnwysfawr o brif anhawsderau iawn ysgrifeniad y Gymraeg, a'r cynllun goreu ac egluraf i'w meistrolï;' ac y mae y llyfryn, hyd y mae yn cyrhaedd, yn gyfaddas i gyfarfod a'r amcan a nodid gan bwyllgor y gystadleuaeth."—*Y Traethodydd.*

"Y MAE y llyfr yn un y dylai ysgrifenywyr ieuainc ei gadw ar y bwrdd bob amser pan yn cyfansoddi. Ceir ynddo lu o gyfarwyddiadau ar y pethau y mae ysgrifenywyr dibrofiad mewn dyrswch o'u cylch."—*Y Beirniad.*

"MAE ynddo grynodeb o gyfarwyddiadau byrion a buddiol yng nghylch sillebu, ac er dangos y gwahaniaeth rhwng geiriau bychain ag sydd agos o'r un sain. Bydd y llyfr bychan hwn yn ddefnyddiol i'r efrwydd ieuanc, ac yn sicr o greu awydd ynddo am fyn'd rhagddo."—*Y Cyfaill Eglwysig.*

"Y MAE yn ymdrin â llawer o anhawsderau ag y mae pob cyfansoddydd Cymraeg wedi teimlo oddiwrthynt pan yn ieuanc, ac wedi rhoddi eglurhâd môr oleu fel nas gall lai na bod yn gynnorthwy nid bychan i'w meistrolï. Dymunem annog cyfansoddwyr ieuainc i'w brynu a'i astudio yn drwyadl, a gallwn eu sicrhau y

cânt ynddo gyfarwyddiadau gwerthfawr i ysgrifenu Cymraeg cywir.”—*Baner ac Amserau Cymru.*

“Mae ei gyfarwyddiadau yn syml ac eglur, a hyny yn y pethau y teimla pob ysgrifenydd ieuanc anhawsdra ynddynt. Cawsom lawer o foddlonrwydd yn y dull hapus yr eglurir y gwahaniaeth sydd rhwng geiriau o gyffelyb seiniau, y rhai y mae llawer o ysgrifenyddwr cyfarwydd yn cyfeiliorni wrth eu defnyddio. Y mae yn gystal gwerth chwe' cheiniog a dim a welsom yn y ganghen hon o efrydiaeth.”—*Y Tyst a'r Dydd.*

“Tebygem y byddai yn fuddiol pe gofalai Pwyllgorau Cyfarfodydd Lleol am wneyd y Llawlyfr hwn yn adnabyddus wrth gyhoeddi eu testynau, gan yr atebai ddyben i wellhau llawer ar y cyfansoddiadau, ac i arbed swm o drafferth i'r Beirniaid, y rhai yn aml a deimlant yn rhwym i roddi gwersi ar lythyaeth, &c., yng nghlyn â'u beirniadaeth.”—*Yr Herald Cymreig.*

“Y mae'r awdwr yn feistr ar ei bwnc, ac yn ei drafod mewn dull eglur, ysgolheigaidd, ac athronyddol. Pryner y llyfr, ac nid edifarhâ neb am na fydd wedi cael llawn gwerth ei chwech.”—*Y Ffellen.*

“Goddefer i ni mewn un gair i gymmeradwyo y llyfryn bach hwn i sylw pob dyn ieuanc ag sydd am ddyfod yn Ysgrifenydd Cymraeg, fel y peth goreu ag y gwyddom am dano.”—*Seren Cymru.*

“Mewn deuddeg o bennodau byrion ceir yr hyn oll ag sydd yn angenrheidiol ei wybod, er medru ysgrifenu Cymraeg cywir a dilyn.”—*Y Dywysogaeth.*

“Yr ydym yn gobeithio y bydd i'n holl ysgrifenyddwr ieuanc feddiannu y Llawlyfr hwn, a'i feistroli yn drwyadl. Fe ysgafnhâ hyny ein llafur yn fawr, gan arbed i ni y drafferth boenus o ddiwygio ysgrifau gwallus fyth ac hefyd.”—*Y Gwaladgarwr.*

“Dyma lyfr bychan yn cael ei gynnyg i sylw llenorion Cymru sydd yn sicr o gynnyrchu llës neillduol. Cynghorwn bob efrydydd ieuanc i'w berchenogi; ca ynddo gyflawn werth ei arian.”—*Y Gerddorfa.*

“Gall ysgrifenydd ieuainc dderbyn cymhorth lawer oddiwrth y *Cydymaith* athrawaidd hwn. Mewn ychydig o le, ceir yma luaws o wersi rhagorol.”—*Y Drysorfa.*

GELLID DYFYNU YCHWANEG O'R UN NATUR.



RHAGŶMADRODD I'R ARGRAPHIAD CYNTAF.

CYFANSODDWDYD y Llawlyfr hwn ar y cyntaf mewn ffurf traethawd ar gyfer Eisteddfod, ac o dan feirniadaeth y Parch. W. Thomas (*Islwyn*), barnwyd ef yn gydfuddugol ag eiddo Dafydd Morganwg. Yr oedd geiriad y Testyn fel y canlyn,—‘Crynhoad byr a chynnwysfawr o brif Anhawsderau iawn ysgrifeniad y Gymraeg, a r cynllun goreu ac egluraf i'w meistrolï;’ ac ychwanegid mai math o Lawlyfr a ddysgwyliid i'r gystadleuaeth. Prynodd yr Awdwr ei gyfansoddiad yn ôl oddiar law y Pwyllgor, gyda y bwriad o'i argraphu. Ac yn awr, wedi ei ddiwygio a'i helaethu, cyflwynir ef yn ostyngedig i sylw ieuencid Cymru yn fwyaf neillduol.

Yr Anhawsderau yr ymdrinir â hwynt yng nghoroph y gwaith hwn, yw y rhai a deimlodd

viii *Rhagymadrodd i'r Argraphiad Cyntaf.*

yr Awdwr felly pan yn ieuanc. Mewn Llyfryn Chwe' Cheiniog o'r maintioli yma, ofer fyddai cynnyg *dadleu* unrhyw bwnc, pe bai'r awdwr yn alluog i hyny; o ganlyniad, ymdriniwyd â phethau *bychain* mewn iaith eglur a darllenadwy. Nid yw'r awdwr chwaith am hōni rhyw lawer o wreiddioldeb yn y llyfryn bychan hwn, mae'n barod i addef mai casgliad yw y rhan fwyaf o hono.

Yn nygiad y gwaith hwn ym mlaen, cafwyd y cynnorthwy mwyaf yn "Llythraeth" Silvan Evans, Grammadeg Rowland, a'r "Gomerydd;" er, ar yr un pryd, na chanlynasom y naill na'r llall yn gyfangwbl. Ymgynghorwyd yn fynych â Geiriadyron Silvan Evans, Spurrell, R. I. Prys, ac eiddo y dysgedig Ddr. Owain Puw.

Gwnaethom ymdrech i ddilyn llwybr canol-og rhwng y ddwy Ysgol; ond yn bendifaddeu, yr ydym dros *ddyblu* y cydseiniaid yn wastad os yn unol â tharddiad y gair, neu ag arfer a

Rhagymadrodd i'r Argraphiad Cyntaf. ix
llafar gwlad.

Gwyddom y beir llawer ar hyn o lyfryn ym mhob dull a modd, ond nis gwaeth genym beth a ddywedir. Cofied y chwilwyr beiau yma mai 'haws gwel'd bai nâ'i wella.' Yr ydym yn ymwybodol fod ynddo wallau a diffygion; ac os byth y daw galwad am ail argraphiad, y mae'r awdwr yn hyderu y bydd hwnw yn fwy perffaith, yn fwy cyflawn, ac yn fwy trefnus.

E. T. DAVIES.

BETTWS, *Ionawr*, 1873.



RHAGYMADRODD I'R AIL ARGRAPHIAD

DYMA ail argraphiad o "CYDYMAITH Y CYMRO" ger bron y byd. Tueddwyd ni gan yr uchel gymmeradwyaethau a dderbyniodd yr argraphiad cyntaf, i ddwyn allan ail argraphiad—helaethedig a diwygiedig. Caiff y byd yn awr farnu ei deilyngdod.

Y mae rhai gwallau wedi llusgo iddo. Cywirwyd y rhai pwysicaf; a gall y darlennydd yn hawdd gywiro y lleill.

Gwnaethom ddefnydd o dermau Seisoneg mewn mânau, er mwyn egluro ein meddwl yn fyr a phwrpasol; maddeued y Cymro uniaith i ni am hyn.

Yr ydym yn cydnabod, yn dra diolchgar, y gefnogaeth wresog a gafodd yr argraphiad cyntaf.

E. T. DAVIES.

Hydref, 12, 1875.

RHAGYMDRODD I'R TRYDYDD
ARGRAPHIAD.

MAE'r gefnogaeth wresog a'r cymmeradwyaethau ffafriol a dderbyniodd yr Argraffiadau blaenorol wedi ein cymell i ddwyn allan yr un presennol. Ceir yn hwn ychydig o welliantau, a lluwys o ychwanegiadau; a chredwn ei fod, ar y cyfan, yn llawer mwy cyflawn a pherffaith nâ'r lleill. Ar yr un pryd, yr ydym yn ymwybodol fod ynddo ddiffygion o ran trefn a medrusrwydd; yng nghydâ rhai gwallau argraffyddol dibwys. Am y diffygion, tafler mantell cariad drostynt; ac am y gwallau, gall y darlennydd gywiro y cyfryw.

Gyda hyn o ragarweiniad, cyflwynwn ef i sylw a nawdd ieuenctid a llênorion Cymreig,

xii *Rhagymadrodd i'r Trydydd Agraphiad.*

gan hyderu y caiff dderbyniad croesawus, ac
y bydd o ryw gymaint o lês a gwasanaeth
iddynt.

E. T. DAVIES.

LLYNLLEIFIAD, *Ion. 28ain*, 1881.



CYNNWYSIAD.

	TUD.
PENNOD I	
Egwyddorion Llythyreniaeth y Gymraeg	17
PENNOD II.	
Terfyniadau Sylweddeiriau	21
PENNOD III.	
Terfyniadau Ansoddeiriau	26
PENNOD IV.	
Terfyniadau Perwyddiaid	30
PENNOD V.	
A ac â, na a nâ, ac ac ag, nac a nag.....	35
PENNOD VI.	
Mae a mai, sy a sydd, oedd ac ydoedd, yw ac ydyw	40
PENNOD VII.	
Geiriau Unsill byrsain a hirsain, y gair ni, yntau ac ynte, &c.	44
PENNOD VIII.	
Y llythyren H, cydgyfarfyddiad dwy R, cydgyf- arfyddiad dwy W, y gair Yn, Ff a Ph	50
PENNOD IX	
Dydolnod, Cydnod, a Tolnod.....	57
PENNOD X.	
Y Prif-lythyrenau a'r Attalnodau	61

PENNOD XI.

Amrywion	67
----------------	----


PENNOD XII.

Chwanegion	81
ATTODIAD—Geiriau Dyrys a Thywyll	96
ATTODIAD—Geiriau yn gofyn Cydseiniaid Dyblyg	108



NODIAD.

AFREIDIOL gosod LLECHRES o DALFYRIADAU
ar ddechreu'r Llyfr, yn gymmaint a bod un
i'w chanfod yn nhudalen 94. Ychydig o dal-
fyriadau a ddefnyddir yng nhorph y gwaith.



Y LLAWLYFR.

GAN mai i'r ieuenctid a dechreuwyr y bwr-iedir y Llawlyfr hwn yn fwyaf neillduol, goreu po egluraf a byraf y gwnawn ymdrin â'r pwnc. Felly ymestyn at eglurdeb a rhwydd-ineb, ac nid cyfyngu ein hunain i ddilyn teithi traethawd, fydd ein prif nôd wrth fyned ym mlaen.

Ar ôl hir ddygn feddwl a dyfeisio, daethom i'r penderfyniad mai y cynllun goreu a hawsaf fyddai ei ranu yn bennodau.

Gan fod yr Anhawsderau, a'r Cynllun a osodwn i lawr fel y goreu i'w meistroli, yn gyssylltiedig ac anwahanadwy, rhaid felly eu trin dryblith drablith, ac nid eu cymmeryd yn un ac un ar wahân.

PENNOD I.

Egwyddorion Llythyreniaeth y Gymraeg.

Y MAE Llythyreniaeth y Gymraeg yn bwnc lled ddyrys. Yn wir y mae llawys, yn enwedig ysgrifenyddieid ieuainc ac anghyfarwydd, yn rhy dueddol o'r hanner i ruthro i'r wasg heb feddu ar unrhyw gyfundrefn o sillebiaeth na chwaith

deall elfenau cyntaf yr iaith. Y mae yn of-vnol i ddyn ieuanc yn awr—cyn anturio ys-grifenu ar unrhyw destyn—gymmeryd gofal mawr yng nghylch pa orgraph i ddilyn, a chofio defnyddio *yr un a'r unrhyw* yn wastad. Y mae Llythyreniaeth y Gymraeg erbyn hyn yn bwnc hynod o ddyrmyslyd, gan fod cynnifer o ffyrdd gwahanol ac amrywiol mewn arferiad.

Dosberthir ysgrifenywyr y Gymraeg yn y dyddiau hyn i ddwy brif blaid neu ysgol, y rhai a gyfenwir yr *Hen Ysgol* a'r *Ysgol Newydd*. Gosodwn yma yn fÿr neillduolion y naill a'r llall:—

(1.) Dyblygiad y Cydseiniaid mewn lluaws o eiriau.

(2.) Defnyddiad y Blaenddodiaid *di, dy, cy, cym, &c.*

(3.) Priodol safle y lythyren *h*.

(4.) Yr Arddodiad *yn*, o flaen geiriau yn dechreu ag *m, mh, ng, ac ngh*.

Ar y cyfan, yr ydym yn fwy pleidiol i'r Hên Ysgol nag i'r Newydd.

Barnwn y dylid ysgrifenu pob gair yn unol â'i darddiad. Os bydd y gwraidd yn anhysbys neu dywyll, dilyner y dull cyffredin o sillebu y cyfryw eiriau, a gadawer o'r hain eu

hachau a'u tarddiad i ieithyddion a geiniadyr-wyr. Yr ydym dros *ddyblu* y cydseiniaid bob amser lle y bo tarddiad y gair yn gofyn neu yn caniatâu hyny. Yr ydym o'r farn y dylai cyfansoddiad geiriau newyddion, yng nghyd ag orgraph pob gair, fod yn unol â'r egwyddorion canlynol,—1, Persain (*euphony*); 2, Cyfaledd (*analogy*); 3, Geirdarddiad (*etymology*); 4, Llafar Gwlad; 5. Awdurdod y Prif Awduron. Pe cai pob gair ei ffurfio a'i sillebu yn unol â'r uchod, byddai gobaith am *unffurfiaeth* rywbryd.

Afreidiol i ni chwanegu fod gwybodaeth helaeth o'r Groeg a'r Lladin, yng nghyd a ieithoedd ereill, yn gynnorthwy mawr tuag at benderfynu orgraph y Gymraeg. Yng nghasgliad y llyfryn hwn, addefwn yn rhwydd, i ni osod llawer o'n pwys a'n goglud ar hyny, yn enwedig pan yn ymgais at drin gwahanol sefyllfaoedd y ddwy lythyren *ff* a *ph*. Hoffem pe baem yn fwy cyfarwydd â'r ieithoedd clasurol.

Y mae amryw o ffurfiau i sillebu lluaws o eiriau, a'r rhai hyny yn gyfartal o ran cywirdeb. Ni ddylid, er dim, geisio cyfyngu y cyfryw i un ffurf, oherwydd y mae y gwahanol

ffurfiau yma o wasanaeth nid bychan i'r Bardd yn fynyeh; heblaw manteision ereill a ellid nodi. Y mae *hyd yn oed*, fel engraiht, yn llawn mor gywir a rheolaidd a *hyd yn nod*; ac y mae *hyd yn od* môr gywir a rheolaidd ag un o honynt. Cofied yr efrydydd, pa fodd bynag, am gadw *unffurfiaeth* mewn sillebiaeth yn wastad, yn enwedig mewn rhyddiaeth.

Terfynwn y bennod hon trwy ddyfynu brawddeg neu ddwy o "Lythraeth" y Parch. D. Silvan Evans, Fel hyn y dywed y Cymreigydd enwog hwn:—"Ymddengys i mi fod eisieu bod gryn lawer yn fanylach gyda golwg ar yr orgraph nag yr ydys wedi bod hyd yn hyn. Nid digon penderfynu pa *lythyr-enau* a ddylent gyfansoddi gair; ond y mae eisieu dangos pa eiriau a ddylid eu *hirnodi*; pa eiriau a ddylid eu *byrnodi*; pa eiriau a ddylid eu *dydolnodi*; a pha eiriau ddylid eu gadael heb yr un nôd." Yr ydym yn hollol gydweled â'r gwr dysgedig uchod yn hyn, ac yn gobeithio y cawn weled gwelliant yn y cyfeiriad hwn ar fyrder. Y mae y Gymraeg, yn anad un iaith, yn gofyn am *unffurfiaeth* mewn orgraph.

PENNOD 11.

Terfyniadau Sylweddeiriau.

(TERMINATIONS OF NOUNS.)

GAN eu bod yn lluosog mewn rhif, ni wnawn yma ond yn unig sylwi yn fŷr ar y rhai mwyaf anhawdd.

HÂD ac ÂD, neu H fel nôd o aceniad.— Defnyddier y terfyniad sylweddol *ád* ar ôl y llythyrenau, c, ch, p, t, ac th, yn y gobenau (*penults*); megys, nacâd, iachâd, gwlypâd, caniatâd, esmwythâd, &c. Gosoder *hâd* ar ol y llythyrenau ereill—llafariaid yn gystal a chydseinaid; megys, boddhâd, cryf hâd, gwellhâd, cadarnhâd, cashâd, &c.

Yr un reol yn union a berthyn i'r terfyniadau perwyddol (*verbal terminations*) *äu* ac *háu*.

Y mae dadleu mawr wedi bod o bryd i bryd yng nghylch y llythyren *h*, ond y mae mwyafrif llenorion yr oes hon o unfryd unfarn nad oes ei heisieu o gwbl yn y fath eiriau ag a ganlyn—angen, brenin, cenad, cenedl, dammeg, gwëydd &c.; ond pan luosogir hwynt, gofynant *h*.

megys, brenhinoedd, cenhadon, cenhedloedd, damhegion, gwehyddion, &c. Yr Hên Ysgol sydd dros ei defnyddio yn y geiriau uchod a'u cyffelyb. Fel y dywedasom yn barod, nid ydym yn credu bod y rhif unigol (brenin, &c.) yn eu gofyn, ond yr ydym dros ei defnyddio yn y rhif luosog (brenhinoedd, &c.) Yr ydym yn barnu bod *angen*, *brenin*, &c., yn fwy cynanol hebddi (yr *h*), a bod *anghenion*, *brenhinoedd*, &c., yn fwy Cymreigiol â hi. *Persain* sydd yn ein tueddu i fabwysiadu'r uchod. [Am ragor ar y llythyren *h*, gwêl pen. viii.]

ANT ac IANT. Pan chwanegir sillaf yn dechreu â llafariad at eiriau yn diweddu yn *ant* neu *iant*, cofier am droi yr *nt* yn *nn*; megys dant, dannedd; taut, tannau; cant, cannoedd; meddiant, meddiannau; punt, punnoedd; peiriant, peiriannau, &c. Os dechreua'r chwaneigiad, pa fodd bynag, â chydsain, ni chedwir ond un *n* yn unig; megys cant, canfed; peiriant, peirianfa; braiut, breinio, breinfa, breindir; enaint, eneinio, eneinio, &c.

AU ac EU. Fel rheol, terfyniad lluosog i sylweddeiriau yw *au*; megys, penau, llyfrau, blodau, calonau, nodiadau, esboniadau, &c.;

a therfyniad unigol yw *eu*; megys, angeu, boreu, cleddeu, eisieu, geneu, godreu, goleu, &c. Y mae hefyd rai perwyddiaid ac ansoddeiriau yn terfynu yn *eu*; megys, chwareu, cynneu, dechreu, maddeu, dadleu, &c.; deheu, goreu, gwineu, teneu a rhai ansoddeiriau ereill.

Cofier fod *au* weithiau yn derfyniad unigol, megys yn ffau, pau, ac iau.

AWDR, AWDWR, ac ODR. Barna y Parch. D. Silvan Evans (yn ei 'Lythyaeth") fod *odr* yn well terfyniad i eiriau yn dynodi offerynau, neu bethau difywyd; ac *awdr* i eiriau yn dynodi gweithredydd, neu berson. Try *awdr* i *odr* wrth ffurfio y rhif luosog; megys, ymherawdr, ymherodron; pryniawdr, pryniodron; llywiawdr, llywiodron, &c. Ond gwell genym ni o lawer y ffurf ddiweddaraf o sillebu y geiriau hyn a'u cyffelyb yn y rhif unigol, sef *eu* terfynu yn *awdwr*; megys, ymherawdwr, pryniawdwr, llywiawdwr, &c. Hon a fabwysiedir gân mwyaf yn awr, ac y mae'n llai clogyrnaidd a mwy ystwyth i'r tafod nag *awdr*.

NC ac NGC. Y mae'r Hên Ysgol yn dadleu yn gryf dros sillebu y geiriau a ganlyn, ac ereill o'r un terfyniad, ag *ngc*; megys, llange,

maingc, caingc, pwngc, gwangc, llwngc. &c.; ond gwell genym ni ddilyn yr Ysgol Newydd yn hyn, a'u hysgrifenu yn—llanc, mainc, cainc, pwnc, gwanc, llwnc, &c., gan adael allan yr *g*; a barnwn fod y dull hwn “yn fwy cysson ag arfer a chyfaledd (*analogy*) ieithoedd yn gyffredin.”

OEDD ac ODD. Cymmysgir a cham-gyfleir y ddau yma yn fynych, gan lwyr anghofio y gwahaniaeth hanfodol sydd rhyngddynt.

Terfyniad lluosog i nifer mawr o sylwedd-eiriau yw *oedd*; megys, cenedloedd, brenhinoedd, pobloedd, gweithredoedd, &c. Ond terfyniad perwyddol yw *odd*,—trydydd person, rhif unigol, amser gorphenol, yn y modd mynegol o'r perwyddiad gweithredol (*active voice*); megys, canodd, llefarodd, gorphenodd, diolchodd, dywedodd, &c.

Ar yr un pryd, terfyna ychydig nifer o berwyddiaid yn *cedd*; megys, oedd, ydoedd, bioedd, a hanoedd. Ceir y perwyddiad *bioedd* yn y ddwy hên linell ganlynol:—

“Bleddyn ab Cynfyn bob crys
Ei hun *bioedd* hên Bowys.”

Gwêl hefyd, 1 BREN. iii. 26. Mae *hancedd* yn air Beiblaidd, e.e., “O'r rhai yr

hanoedd. Crist yn ôl y cnawd," (RHUF. ix. 5.)

Ond fel RHEOL, cofied yr efrdedd mai sylweddeiriau yn y rhif luosog a derfynant yn *oedd*, a pherwyddiaid o'r amser gorphenol yn *odd*.

UR ac YR. Y rheol a osodir i lawr gan Rammadegwyr a Ieithyddion o barthed y ddau derfyniad hyn, yw, fod *yr* i gael ei ddefnyddio yn derfyniad sylweddeiriau difywyd, neu enwau offerynau; megys, pladyr, canwyllyr, cwllyr, pellebyr, gwniadyr, penadyr (*coin*), gleiniadyr, blwyddiadyr, enwadyr, geiriadyr, newyddiadyr, &c.; a bod *ur* i gael ei arfer yn derfyniad sylweddol am ddynsodau neu ber-sonau; megys, creadur, ffoadur, cysgadur, penadur (penaeth), pechadur, llywiadur, cofiadur, &c. Mae cysur, mesur, a dolur, a rhai ereill—fe ddichon, yn eithriadau.

Nid ydys yn wastad yn cadw at y rheol uchod, canys cyfarfyddwn yn fynych â papur, geiriadur, ysgrythur, newyddiadur, &c. Carem weled diwygiad buan yn hyn, sef i bawb gadw at y rheol seml uchod.

PENNOD III.

Terfyniadau Ansoddeiriau.

(TERMINATIONS OF ADJECTIVES.)

LLUCSOG iawn eto yw y Terfyniadau Ansoddeiriol. Yma ni a ymdrechwn daflu ychydig o oleuni ar rai o'r anhawsaf.

ÄUS, HÄUS; ÈUS, HÈUS; ÖUS, HÖUS. Ysgrifener ansoddeiriau yn y terfyniadau uchod gyda dydolnod (*diræresis*) ar y llafariad gyntaf; fel hyn,—trofäus, parhäus, bywhäus, ammhëus, cyflëus, chwärëus, cadnös, parotös, cyffrös, &c. Nid oes eisieu dydolnodi sylweddeiriau a ffurfir o'r ansoddeiriau uchod, ond ysgrifener hwynt fel y canlyn—parhausder, cyfleusdra, trofausder, chwareusrwydd, &c., heb yr un ddydolnod, nac un nód arall.

EU. Terfynyr yr ansoddeiriau a ganlyn, a'u cyffelyb, yn *eu* (ac nid *au*), sef deheu, gwineu, teneu, goleu, goreu, &c.

Terfyniad lluosog i sylweddeiriau yw *au*, ac ni ddylid un amser ei arfer yn derfyniad unigol i ansoddeiriau. Gwir ei fod yn derfyniad

unigol i *rai* sylweddeiriau, fel y sylwyd yn barod: gwêl *peu. ii*, dan *au* ac *eu*.

LLAWN a LLON. Y mae gwahaniaeth dirfawr mewn ystyr rhwng y ddau derfyniad ansoddeiriol *llawn* neu *lawn*, a *llôn* neu *lôn*.

Ystyr y terfyniad *llawn* neu *lawn* yw *full*, *plenteous*; a dylid ei arfer yn yr ansoddeiriau canlynol, a'u cyffelyb—ffrwythlawn, cariadlawn, hiraethlawn, ffyddlawn, creulawn, echryslawn, digllawn, cysurlawn, prydlawn, rhadlawn. Try y terfyniad *llawn* i *lôn* wrth ffurfio sylweddeiriau o'r ansoddeiriau hyn; megys, ffyddlondeb o ffyddlawn, creulondeb o creulawn, echryslonder o echryslawn, rhadlondeb o rhadlawn, &c.; ond nid yn wastad, canys y mae *cyflawnder* yn eithriad.

Ystyr y terfyniad *llôn* neu *lôn* yw *cheerful* neu *lively*. Collir golwg ar yr ystyron hyn gan ysgrifenyddyr y dyddiau presennol. Defnyddiant *llawn* a *llon* yn gymmysg a diwahaniaeth: fel engraipht,—digllon, hiraethlon, creulon, &c., a welir yn fynychaf yn ein newyddiadyron. Ond pa synwyr sydd yn y gair *digllon*? Dim; y mae'n wrthun a disynwyr. Pa fodd y gall unrhyw un fod yn *ddig* (*angry*) ac eto yn *llon* (*cheerful*)? Amhosibl; *dig-*

llawn (*wrathful—full of wrath*) yw'r gair, ac ysgrifener ef felly. Ar yr un tir yn union, ysgrifener *hiraethlawn*, *creulawn*, *echrslawn*, &c., yn unol â'u gwreiddiau a'u hystyron. Gwir y gellir terfynu rhai ansoddeiriau yn *llon*; megys, *digriflon* (*jocose*), *llygadlon* (*having a merry eye*).

LLYD neu LYD. Cymmysgir y ddau derfyniad yma yn fynych. *Clust* dda yw y feddyginiaeth oreu er osgoi dyryswch yn hyn.

A ganlyn yw y rheol a gymmeradwyir gan Rammadegwyr er eu gwahaniaethu:—ar ôl y llythyrenau *m*, *n*, ac *r*, defnyddir *llyd* yn derfyniad; megys, trymllyd, dychrynlllyd, crawnlllyd, oerlllyd, &c.

Ar ôl *b*, *ch*, *d*, *dd*, *f*, *g*, *s*, *t*, ac *th*, arferer *lyd* yn derfyniad; megys, gwrthwyneblyd, cochlyd, gwaedlyd, noddlyd, aflyd, ciglyd, chwyslyd, heintlyd, poethlyd, yng nghyd a lluaws ereill a allasem nodi.

Terfyniad lluosog ansoddeiriau yn gyffredin yw *ion*, ac nid *on*; megys, manion, gwynion, mawrion, melynion, gwychion, breision, mwynion, daiarolion, nefolion, &c. Y mae'r eithriadau i'r rheol hon, ar yr un pryd, yn lluosog ac amrywiol.

Y mae yn arferiad cyffredin gan amryw o ysgrifenyddyr y dyddiau hyn i gyssylltu ansoddair unigol â sylweddeiriau lluosog; megys, dynion tlawd, pethau mawr, llwybrau blin, pyllau dwfn, seiniau tlws, &c., a hynny pan y bo ffurf lluosog i'r ansoddair. Nid ydym am ddyweyd y dylai yr ansoddair a'r sylweddeiriau gyduno yn wastad mewn *rhif*; peisain (*euphony*) sydd oreu i benderfynu hynny. Mae'n wir fod llaws o ansoddeiriau, os nad y rhan fwyaf, heb ffurfiau lluosog yn perthyn iddynt; fel engraipht, nis gellir lluosogi y rhai canlynol,—call, drwg, glân, têt, hên, da, hynaws, hyglog, mawrglog, sychlyd, oerlyd, a llu o'u cyffelyb.

Y mae y ddau derfyniad *AWL* ac *AWG* bron a diflanu, a gadael lle i'w gwell—*OL* ac *OG*; megys, hollol, ansoddol, dyddorol, hyfrydol, adeiladol; arfog, pigog, fforchog—yn lle hollawl, ansoddawl, dyddorawl, arfawg, pigawg, &c. Y mae y terfyniadau *awl* ac *awg* yn fynych yn wasanaethgar mewn barddoniaeth; ond gwell defnyddio *ol* ac *og* mewn rhyddiaith.

PENNOD IV.

Terfyniadau Perwyddiaid.

(TERMINATIONS OF VERBS.)

GAN fod y rhai hyn yn lluosog iawn—yn lluosocach, os dim, nâ'r rhai blaenorol, ni wnawn ond yn unig ymdrin â'r rhai mwyaf dyrys ac anhawdd.

ÄU a HAU. Defnyddier *äu* yn derfyniad perwyddol ar ôl y llythyrenau caledion canlynol,—c, ch, ff, ll, p, s, t, ac th; megys, nacäu, iachäu, coffäu, gwelläu, casäu, esmwythäu, &c.

Arferer *häu* yn derfyniad ar ol y llythyrenau ereill; megys, gwlybhäu, boddbäu, mwynhäu, gwaghäu, cryfhäu, trugarhäu, cyfiawnhäu, sarihäu, &c.

Yr un berthynas yn union sy rhwng *äu* a *häu* ag sy rhwng *ád* a *had*.

Y rheol uchod a gymmeradwywn ni i'r ieuainc a'r anghyfarwydd, er osgoi y gwahanol ddulliau ag sy'n bodoli o ysgrifenu perwyddiaid yn terfynu yn *äu* a *häu*.

AW. Y mae *aw* yn well terfyniad i luaws o berwyddiaid nag *o*. Fel engraipht, y mae

aw yn well terfyniad i *addaw*, *gwrandaw*, &c.; canys gofynir gwasanaeth yr *w* yn yr holl foddau (*moods*) ac amserau (*tenses*): fel hyn—*addaw*, *addawaf*, *addawodd*, *addawsant*, &c., *gwrandaw*, *gwrandawaf*, *gwrandawodd*, *gwrandawsant*, &c. Yr ydym felly yn anghymeradwyo *addo*, *gwrando*, *taro*, &c.

EU. Y mae y perwyddiaid a ganlyn yn terfynu yn *eu*,—*ammheu*, *chwareu*, *cynneu*, *dadleu*, *dechreu*, *maddeu*, &c.

Pan chwanegir *u* at air yn terfynu yn *e*, dydoler yr *e*, ac ysgrifener y geiriau fel y rhai a ganlyn,—*cyflëu*, *dilëu* *rhëu* (*rhedeg*), *crëu*, *dyhëu*, *dydrëu* (*to bore*), *dynëu*, &c.

OI. Nid yw y perwyddiaid sydd yn diw-eddu yn *oi* yn y modd annherfynol yn gofyn dydolnod, nac un nôd arall; *megys*, *parotoi*, *deffroi*, *cloi*, *troi*, &c. Pan fyddo dwy *o* yn cydgyfarfod mewn gair, y mae un o honynt yn syrthio ymaith; *megys* yn *ffôdd* (—*ffoodd*), *ffônt* (—*ffoont*), *rhôat* (—*rhoddont*), &c.

I ac U. Y mae'r ddau derfyniad yma, te ddichon, wedi peri mwy o ddyrswch ac anhwylysdod i efrydwyr ieuaine y Gymraeg nâ'r un anhawsdra arall perthynol i'r iaith

Y mae yn bwnc dyryslyd, rhaid addef. Sylw-
ed yr efrdydd ar y rheolau canlynol:—

Arferer *i* (ac nid *u*).

(1.) Ar ôl geiriau a derfynant yn *w*, oddi-
eithr i *a* neu *y* ragflaenu yr *w*; megys, berwi,
chwerwi, delwi, tewi, meddwi, rhewi, &c. Ond
os bydd *a* neu *y* yn nesaf o flaen *w*, yna *u* a
ddefnyddir fel terfyniad, megys, croesawu,
esglywu (*to defend*), athrawu, credu, nawsu,
chwysu, &c.

(2.) Pan fyddo *o* (neu *aw*, wedi troi yn *o*)
yn dygwydd bod yn y sill nesaf i'r terfyniad,
megys, boddi, codi, holi, cochi, moli, cospi, tori,
ofni, llosgi, &c. Wele yn canlyn engreiphtiau
o *aw* wedi troi yn *o*; megys yn—noddi (o
nawdd), profi (o prawf), toddi (o tawdd),
blaenori (o blaenawr), cyfansoddi (o cyfan-
sawdd), moli (o mawl), &c.

Y mae y rhan luosocaf o'r perwyddiaid yn
terfynu yn *u*; ond llythyrenir amryw yn y
ddwy ffordd, megys peri, peru; pesgi, pesgu;
rhegi, rhegu; crefi, crefu; ofni, ofnu; cyflawni,
cyflawnu; mynegi, mynegu; croesawi, croes-
awu, &c.

Ar ôl geiriau a derfynant yn *aeth* ac *ydd*,
defnyddier *u* yn derfyniad perwyddiadol;

megys. arfaethu, gwasanaethu, marwolaethu, tystiolaethu. ysglyfaethu, &c.; aflonyddu, cer-yddu, cynyddu, gweinyddu, ymadnewyddu &c.

Darllen ac astudio yr awduron goreu yw y feddyginiaeth sicraf ar y pen hwn.

ODD. Gwél Terfyniadau Sylweddeiriau, pen. ii.

WYD. Ni ddylid dyblu yr *w* yn y geiriau canlynol, a'u cyffelyb,—llanwyd, galwyd, enwyd, codwyd, nodwyd. rhoddwyd, sylwyd; llanwch, galwch, enwch, codwch, nodwch, rhoddwch, sylwch, &c. Ni ddylid ei dyblygu chwaith yn tarawyd, gwrاندawyd, clywyd, gwrاندewch, addawn, clywn, esmwythawn, casawn, gwrاندawn, cryfhewch, caniatawyd, &c.

Dyma ni wedi taflu cipolwg fêr ar rai o derfyniadau dyrys lluaws o eiriau Cymraeg, gan osod i lawr reolau byrion a phwrpasol—môr eglur ag oedd modd—er cynnorthwy i'r efrydydd ieuanc i osgoi anhawsderau, ac i wybod pa safon i ddewis. Ymdrinir â'r un pynciau agos yn "Llythyaeth" Evans, a "Grammadeg" Rowland, ond gyda mwy o fanyldra, hwylusdod, a medrusrwydd nag a

wneir gan Awdwr y Llawlyfr hwn. Ein cynghor yw—myned yr efrydydd y ddau lyfr uchod cyn gynted ag y gall, ac astudied hwynt yn drwyadl.

Nis gellir rhestru y **BLAENDDODIAID** (*prefixes*) ym mhlith y prif anhawsderau; o ganlyniad, ni wnawn sylwi arnynt o gwbl mewn modd arbenigol yn y Llawlyfr hwn, oddieithr i ambell un ymwthio i fewn yn ddamweiniol yn awr ac eilwaith.

Awn rhagom bellach i sylwi ar *eiriau o gyffelyb sain a llythyreniaeth, ond o ystyron gwahanol*; a'n barn ni yw, mai dyma y rhai a ddylid eu hystyried yn *brif anhawsderau iawn ysgrifeniad y Gymraeg*.

PENNOD V.

A ac Â, NA a NÂ, AC ac AG, NAC a NAG.

A ac Â. Afraid ychwanegu fod y geiriau bychain unsill yma, yng nghyd â'u cyffelyb, yn cael eu cymmysgu â'u gilydd yn fynych gan ysgrifenywyr tra medrus, a hyny gan mwyaf o ddifaterwch ac esgeulusdra.

Drwg genym orfod addef fod y Wasg Gymreig i'w beio yn hyn hefyd. Llawer erthygl, wedi ei hysgrifenu yn ofalus, a'r geiriau byrsain a hirsain wedi eu hacennodi yn fanwl a lurgynir ac a anafir yn fynych gan ein Golygyddion a'r Cyssodwyr.

Mawr yw'r gwahaniaeth sydd i'w ganfod yug ngolygyddiaeth y gwahanol Newydd-iadyron Cymreig! Gwell peidio manylu ar hyn, nac enwi na chamol neb, rhag ofn i ni ddigio ereill yn anfwriadol.

Y mae gwahaniaeth pwysig rhwng *a ac á*, heblaw y gromfach (\wedge) weledig.

Cyssylltiad yw yr *a* gyffredin, ac arferir hi o flaen geiriau a ddechreuant â chydseiniaid;

megys, gwyr *a* gwragedd, tai *a* thiroedd, brenhinoedd *a* llywodraethwyr, &c. A chofied yr efrydydd fod yr *a* hon yn cyfateb i *and* yn Seisoneg,—hyny yw, pan y bo yn gyssylltiad.

Arferir hi hefyd, ar rai achlysuron, fel rhagenw (*pronoun*), yn sefyll am 'yr hwn,' 'yr hon, 'yr hyu.' &c.; megys, y dyn *a* welaist, *a* laddo *a* leddir, *a* fyño Duw *a* fydd, &c.

Defnyddir hi, bryd arall, fel Banyn dyluniol (*expletive particle*) neu Ragferf Doliadol o flaen perwyddiaid; megys, hi *a* ddywedodd, yntau *a* lefodd, *a* welsoch chwi ef? *a* glywsoch chwi'r hanes? &c. Nid oes yr un gair Seisoneg yn cyfateb iddi yn yr engreiphtiau uchod, a'u cyffelyb.

Am yr *a* gromfachog, *Arddodiad* (*preposition*) yw hi yn wastad, ac yn gyfystyr â *with* yn Seisoneg fynychaf; megys,

Tori â chyllell—*To cut with a knife.*

Lladd â chleddyf—*To kill with a sword.*

Tarawyd ef â chareg—*He was struck with a stone.*

Ymadael â chyfaill—*To part with a friend.*

Pren â dail arno—*A tree with leaves on it.*

Ymaith â hi—*Away with her.*

Mŷn rhai roddi cromfach uwchben y perwyddiad *ä* (aiff), ond gwell genym ni ei dydolnodi; megys, efe a *ä*. pwy a *ä* drosom, &c.

Ereill a osodant gromfach uwchben yr *a* gymhariaethol. Gwell genym ni ei gadael heb yr un; megys,

Cymmaint *a* mynydd—*As big as a mountain.*

Cyflymed *a* saeth—*As swift as an arrow.*

Môr chwerw *a* bustl—*As bitter as gall.*

Môr ddysgedig *a* thithau—*As learned as you.*

Nid ydym mewn un modd yn anghymmer adwyo cromfach uwchben yr *a* gymhariaethol; ond barnwn mai haws a llai diboen i'r efrydydd ieuanc fyddai ei hysgrifenu heb yr un. Felly ni fyddai ganddo ond cofio fod yr 'â' gromfachog, sef yr arddodiad, yn gyfystyr â *with* yn Seisoneg; a chofied hefyd ddydolnodi yr *ä* (aiff), berwyddiadol.

NA a NĀ. Y mae gwahaniaeth hanfodol rhwng y ddau air unsill hyn. Ysgrifenir ac argraphir y ddau, y rhan amlaf, heb yr un gromfach (nac un nôd arall) ar y naill na'r llall.

Na sydd Gyssylltiad weithiau, a Rhagferf negyddol (*adverb of negation*) bryd arall, yn cyfateb i *nor, neither, no, a not.* yn Seisoneg.

fel y byddo yr achos yn gofyn. Arferir hi o flaen geiriau yn dechreu â chydseiniaid; megys, *na dyn na dynes*, heb *na dechreu na diwedd*, *na ladd*, &c.

Ond am *nâ* (gyda'r gromfach).—Cyssylltiad yw yn ôl ein barn ni. Rhagferf negyddol ydyw yn ôl barn Caerfallwch, ac Arddodiad ydyw medd Samuel Evans, awdwr “Y Gomerydd.”

Defnyddir ‘*nâ*’ hefyd o flaen cydseiniaid; megys, mwy *nâ* digon, gwell *nâ* neb, gwell pwyll *nâ* chyfoeth, ‘gwell yw’r tlawd a rodio yn ei uniondeb *nâ*’r traws ei ffyrdd,’ &c.

Rhaid i ddechreuwyr gofio fod y ‘*nâ*’ gromfachog yn cael ei defnyddio fynychaf ar ôl cymhariaeth, ac y mae yn cyfateb i *than* yn Seisoneg.

AC ac AG. Y mae lluwys o’n cyhoeddiadau, ac ysgrifenwyr o fri, yn defnyddio y ddau air hyn dryblith-drablith, heb erioed feddwl fod gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt mewn ystyr.

Cyssylltiad yw *ac*, a arferir o flaen geiriau yn dechreu â llafariad, fel rheol: megys, aur *ac* arian, einioes *ac* angeu, papyr *ac* inc, dyn *ac* anifail, &c. Arferir *ac* ar droion o flaen cyd-

seiniaid ; megys. *ac felly, ac fe ddaw, &c.*

Y mae *ag* yn Arddodiad yn yr enghreifftiau a ganlyn, ac yn gyfystyr â *with* yn Seisoneg :—

Prynu *ag* aur—*To buy with gold.*

Ymladd *ag* arfau—*To fight with weapons.*

Ymaith *ag ef*—*Away with him.*

Tarawyd hi *ag* offeryn awch—*She was struck with an edged tool.*

Y mae *ag* weithiau yn Rhagferf, ac yn Rhagenw (—yr hwn, yr hon, yr hyn) brydiau ereill. Nid oes eisieu cromfach o gwbl uwchben yr *a* yn *ag*, na chwaith yn *nag*, gan fod yr *e* a'r *g* yn ddigon i'w gwahaniaethu, a dangos eu hystyron.

NAC a NAG. Defnyddir y ddau air hyn yn lle 'na' a 'nâ,' sef pan fyddo cydseiniaid yn dechreu y geiriau dilynol ; o ganlyniad, yr un rheolau yn union a gymhwysir atynt, sef, bod *nac* yn gyfystyr â *neither, not, &c.*, a *nag* yn cyfateb i *than* yn Seisoneg. [Gwêl felly dan NA a NÂ.]

Mewn amryw o hên awduron, ceir *no* am *nd*, a *nog* am *nag* ; megys,

'Mwy *no* physg ym mysg môr.'

'Gwell yw'r wialen wên wiwdeg
A blyco *nog* a dor'n deg.'

Y maent allan o arferiad bron yn awr, a gellir eu hebgor yn rhwydd, am nad oes eu heisieu.

PENNOD VI.

MAE a MAI, SY a SYDD, OEDD ac YDOEDD, YW ac YDYW.

MAE a MAI. Heblaw fod y ddau air hyn i'w llythyrenu yn wahanol, y mae hefyd i'r naill a'r llall wahanol ystyr.

Mae sydd Berwyddiad bob amser, ac yn cyfateb i *be, is, there is, neu are*, yn Seisoneg—fel y bo yr ymadrodd yn gofyn. Gosodwn yma engreiphtiau :—

Mae yr hanes yn gywir—*The report is correct.*

Pa le *mae* Ioan ?—*Where is John ?*

Mae'r dyn yn ddiwyd—*The man is industrious.*

Mae ein hamser yn hedeg—*Our time is flying.*

Mae Abel dy frawd di ? *Where is Abel thy brother ?* (GEN. iv. 9.)

Mae'r Arglwydd dy Dduw ?—*Where is the Lord thy God ?* (MICAH vii. 10.)

Mae hwynt ? *Mae* dy ddoethion ?—*Where are they ? Where are thy wise men ?* (ISAÿ xix. 12.)

*Mae'r gwŷr a ddaethant atat ti heno?—
Where are the men which came in to thee this
night? (GEN. xix. 5.)*

Yn y pedair engraipht olaf uchod, y mae y gofyniad *pa le* (neu *lle*) i'w ddeall o'u blaen; heb hyny, y maent yn darllen yn anystwyth iawn.

Am *mai*, Cyssylltiad yw, ac yn gyfystyr â *that* (neu *that it*) yn Seisoneg, fel y gwelir oddiwrth yr engreiphtiau canlynol:—

Clywais *mai* felly yr oedd—*I heard that it was so.*

Dywed *mai* dyn caredig yw Ioan—*He says that John is a kind man.*

Mae hi yn taeru *mai* gwir yw y chwedl—*She is asserting that the story is true.*

Gall yr efrydydd ieuanc, os nad yw yn Sais gweddol, osgoi llawer o drafferth a llafur trwy gofio fod *taw* yr un ystyr a *mai*, ac y gwasanaetha y naill yn lle y llall. Fel hyn:—

Dywed *taw* (*mai*) dyn caredig yw Ioan.

Clywais *taw* (*mai*) felly yr oedd.

Dywed *taw* (*mai*) gwir yw y chwedl.

Taw arferir y rhan fynychaf yn y Deheudir mewn ymddiddanion cyffredin; ac y mae lluaws o ysgrifenywyr medrus yn ei arfer

hefyd ; a phaham lai ?

MAU sydd Ragenw meddiannol, anarferedig braidd yn awr. Ceir ef unwaith yn Efengyl Ioan (pen. iii. 29,—‘Y llawenydd hwn *mau* (o'r eiddof) fi gan hyny a gyflawnwyd.’ Ei gyfystyr yn Seisoneg yw,—*my, mine, neu my own.*

SY a SYDD. Y diweddar ddysgedig Ioan Tegid oedd y cyntaf i gynnyg gwahaniaethu rhwng *sy* a *sydd*; sef dyweyd fod yr un berthynas rhyngddynt, a'r un rheolau yn perthyn iddynt, ag i'r perwyddiaid *esti* ac *estin* yn Groeg; ac o herwydd hyny, y dylid arfer *sy* o flaen cydseiniaid, a *sydd* o flaen llafariad; megys, Pwy *sy* draw? Pwy *sydd* acw? (Gwêl “Iawn Lythyreniad” Tegid, tudal 14eg.)

Dilynwyd ef yn yr un cyfeiriad drachefn gan Caerfallwch, ac yn ddiweddarach, i ryw raddau, gan Silvan Evans. Nid yw Dr. W. O. Puw—cyn belled ag y gwyddom, yn gwneyd y gwahaniaeth crybwyllledig hwn rhwng *sy* a *sydd*. Nid yw Rowland chwaith yn cefnogi y gwahaniaeth; tra y mae Samuel Evans, awdwr “Y Gomerydd,” yn ei gondemio yn groch.

Yr ydym ninnau o'r farn y gellir defnyddio

sy a sydd yn ddiwahaniaeth, gan na achosir unrhyw wall sain neu anystwythder drwy hyny.

OEDD ac YDOEDD, YW ac YDYW. Nid ydyw ein Cymreigwyr goreu yn gwneyd un gwahaniaeth rhwng *oedd* ac *ydoedd*, na rhwng *yw* ac *ydyw*. Nid ydym ninnau chwaith am ddyweyd fod unrhyw wahaniaeth neillduol rhyngddynt, ond meddyliwn fod lleoedd priodol i bob un o honynt.

Mewn gofyniad, ni a osodem *oedd* ac *yw*, ac yn yr atebiad *ydoedd* ac *ydyw*; megys, A *oedd* efe yno? *Ydoedd*. A *yw* yr hanes yn wir? *Ydyw*.

Efallai mai dibwys iawn yr ystyrir y gwahaniaeth uchod o'n heiddo gan lawer; ar yr un pryd credwn ei fod yn llawn mór sylweddol a phriodol â'r un a gynnygir gan ereill rhwng *sy a sydd*.

PENNOD VII.

Geiriau Unsill Byrsain a Hirsain, &c.

Yn y bennod hon. a'r ganlynol, ymdrechwn dafu ychydig oleuni ym mhellach ar rai o'r geiriau bychain unsill yma, a geiriau ereill o lythyreniaeth annilys a thywyll, y rhai sydd yn peri llawer o draul a thrafferth i efrydwy'r ieuainc.

EI ac EU. Rhagenwau meddiannol yw y ddau air unsill hyn,—*ei* yn unigol, ac *eu* yn lluosog, megys,

<i>Ei</i> dad— <i>his father</i>	}	unigol		<i>Eu</i> tad— <i>their father</i>	}	lluosog
<i>Ei</i> thad— <i>her father</i>						

Gwneir y geiriau unsill canlynol i fyny drwy gynnorthwy *ei* ac *eu*; fel hyn:—

<i>a</i> 'i — a ei, ac ei	}	unigol		<i>a</i> 'u — a eu, ac eu	}	lluosog
<i>mo</i> 'i — mo ei				<i>mo</i> 'u — mo eu		
<i>nâ</i> 'i — nâ ei, nag ei				<i>nâ</i> 'u — nâ eu, nag eu		
<i>o</i> 'i — o ei, odd ei				<i>o</i> 'u — o eu, odd eu		

Gellid nodi ychwaneg o engreiphtiau o'r fath uchod.

YNTAU ac YNTE. Y mae rhai ysgrifenywyr medrus o'r farn fod *yntau* ac *ynte* yn gyfystyr, ac y gellir defnyddio y naill yn lle y llall. Camsyniad dybryd yw hyn.

Rhagenw yw *yntau* (—efe hefyd) yn deilliw o *wn-tau* yn ôl Geiriadyr Dr. Puw, a'i gyfystyr yn Seisoneg yw *he also, him also, him too*.

Rhagferf yw *ynte* yn deilliw o *ynt-e*, a'i gyfystyr yw *else, then*; ai *ynte*—*or otherwise*. 'Ai *ynte* (*or else*) cleddyf yr Arglwydd, sef haint y nodau yn y tir dri diwrnod.' (1 CRON. xxi. 12).

Y gair NI. Y mae y gair *ni* weithiau yn Rhagenw, yn sefyll am *we neu us* yn Seisoneg. Bryd arall Rhagferf negyddol ydyw, yn gyfystyr â *no, not, &c.*, yn Seisoneg.

Cymmer y *ni* ragenwol y banyn dyluniol a ar ei ôl, ac y mae yn ei ofyn hefyd fynychaf, er gwneyd i'r frawddeg ddarllen yn rhwydd a dealladwy; megys, 'ni *a* awn i gyfryw ddinas,' 'ni *a* farchogwn ar feirch,' 'cansys ni *a* wyddom os ein daiarol dŷ,' &c.

Drwy adael yr *a* allan, achosir llawer o dywyllwch ac aneglurdeb yn fynych, fel y dengys y ddwy linell ganlynol:—

'I'r lân, i'r lân, diang'sant hwy,
Yn ôl eu traed *ni* sengwn mwy.'

Ni *a* sengwn, neu *y* sengwn (*we will tread*), oedd meddwl y Bardd yn ddiddadl.

MINNAU a NINNAU. Dilynasom y Dr. W. Owain Pugh, Silvan Evans, a Rowland, yn

sillebiaeth y ddau ragenw yma, gan osod dwy *n* ynddynt. Myn ereill mai un *n* a ddylai fod ynddynt yn ôl eu tarddiad. Y mae'r efrydydd at ei ryddid i ddewis y ffordd a fyno i'w sill-ebu, ond iddo gadw at yr unrhyw yn wastad.

MYNU a MYNY. Perwyddiad yw mynu, a'i gyfystyr yw *to procure, to insist, to will, neu to have*—yn Seisoneg; megys,

A fynu di beth? Mynaf—*Will you have some? I will.*

Gwnaed a fyno—*Let him do what he will.*

Sylweddair yw *myny* yn wreiddiol, ond drwy osod yr arddodiad *i* o'i flaen, gwneir ef felly yn rhagferf leol, megys,

Tuag i fyny—*Upwards.*

I fyny, neu i fynydd—*Upwards.*

Dôs i fyny, neu i fynydd—*Come up.*

Felly, terfynyr y gair hwn (*myny*) ag *y*, a'r perwyddiad ag *u*; a chofier nad oes eisieu dwy *n* yn un o honynt.

GEIRIAU UNSILL BYRSAIN a HIRSAIN. Y mae lluwys o eiriau unsill yn y Gymraeg, o wahanol ystyron, ond a sillebir yr un fath yn union. Dylid o ganlyniad eu hacennodi yn wahanol, ac yr ydym ni yn barnu mai y ffordd hawsaf yw—acennodi y naill a'r llall. Ni

bydd un perygl wedyn, i gamsynied y meddwl.
Acêner hwynt fel y canlyn :

BYRSAIN.	HIRSAIN.
Tôn, <i>wave.</i>	Tôn, <i>tune.</i>
Cân, <i>white.</i>	Cân, <i>song.</i>
Bêr, <i>short.</i>	Bêr, <i>spear.</i>
Glan, <i>brink.</i>	Glân, <i>clean.</i>
Mân, <i>place.</i>	Mân, <i>small.</i>
Gwân, <i>feeble.</i>	Gwân, <i>stab.</i>
Môr, <i>how.</i>	Môr, <i>sea.</i>
Gwâr, <i>nape.</i>	Gwâr, <i>mild.</i>
Tân, <i>under.</i>	Tân, <i>fire.</i>
Gwâl, <i>wall.</i>	Gwâl, <i>bed or couch.</i>
Cŷn, <i>before.</i>	Cŷn, <i>wedge.</i>
Dêl, <i>smart.</i>	Dêl, <i>will come.</i>
Llên, <i>curtain.</i>	Llên, <i>literature.</i>
Câr, <i>drag.</i>	Câr, <i>friend.</i>
Hŷn, <i>these.</i>	Hŷn, <i>older.</i>
Tŵr, <i>heap.</i>	Tŵr, <i>tower,</i>

Arferid gynt ddyblu y cydseiniaid er dangos grym a phwys yr acen ; megys, *llann, tonn, mann, hynu* ; hefyd *torri, tynnu, sorri, &c.* Nid yw hyn yn ofynol oddigerth mewn geiriau cyfansawdd, megys *ammod, annoeth, mammaeth, pennod, &c.*, tarddiad pa rai sydd yn amlwg yn gofyn hyny.

Y gair MÔR. Afreidiol ac ammhriodol yw gosod *môr* gyda y tertyniad ansoddeiriol *ed*, gan fod un o honynt yn ddigon. Byddai ysgrifennu *môr gyflymed, môr gryfed, môr wyned, &c.*, yn hollol anghywir ac angrammadegol. Gosodwn yma engreiphtiau rheolaidd:—

Môr wyn yw'r eira !
Cân (neu *cyn*) *wyned* yw'r eira ! } *How white the snows.*
Wyned yw'r eira ! }

Rhêd *môr gyflym* ag y gelli.
 Rhêd *cân* (neu *cyn*) *gyflymed* ag y gelli. } *Run as quick*
 Rhêd *gyflymed* ag y gelli. } *as you can.*

Oddiwrth yr engreiphtiau uchod, fe wêl yr efrdydd fod rhoddi 'môr' o flaen ansoddair yn y radd gyfartal yn hollol angrammadegol. Y mae'n ofidus genym orfod dyweyd eto fod lluaws o ysgrifenywyr medrus wedi colli golwg yn llwyr ar y cyfeiliornad hwn. Nid yw môr ddistadl ag y mŷn rhai ei fod.

I'W ac YW. Y mae ysgrifenywyr gwych yn colli golwg yn tynych ar y gwahaniaeth dirfawr sydd rhwng y ddau air bychan unsill yma.

Arddodiad rhagenwol (*pronominal preposition*) ydyw *i'w*, yn gyfansawdd o *i* neu *idd*, ac *ei* neu *eu*, fel bo y rhif yn gofyn; ei gyfystyr yn Seisoneg yw *to his, to her, to their*; megys, 'aeth hwn i waered *i'w* (h.y. *idd ei—to his*)

dŷ, wedi ei gyfiawnhau yn fwy nâ'r llall :
aethant *i'w* (h.y. *idd eu—to their*) hystafelloedd
yn llawen.

Yw sydd un o ffurfiau y perwyddiad 'Bod,'
yn yr amser presennol o'r modd mynegol.
Ffuriau ereill *yw* ydynt *mae, sy, sydd, oes, ac*
ydyw. Is, there is, are, &c., yw y Seisoneg am
y perwyddiad hwn ; megys,

Ti *yw* y Crist—*Thou art the Christ.*

Arthur *yw* y brenin—*Arthur is the king.*

Rhyddid *yw* dymuniad pob gwlad—*Liberty*
is the desire of every country.

Da *yw* moliannu yr Arglwydd—*It is a good*
thing to give thanks unto the Lord. (Ps. xcii. 1).

Gall y llygadgraff, gydag ychydig o ofal ac
ystyriaeth, ganfod y gwahaniaeth uchod yn
rhwydd.

PENNOD VIII.

*Y Llythyren H, Cydgyfarfyddiad Dwy R,
Cydgyfarfyddiad Dwy W- y Gair YN,
FF a PH.*

Y LLYTHYREN H. Gwneir annhegwch mawr â'r llythyren hon gan lawer, yn enwedig trigolion Gwent a Morganwg,—sef ei swnio a'i hysgrifenu pan *nad* oes ei heisieu, a'i gadael allan drachefn pan y mae *gwir angen* am dani. Mòr fynych y clywir ac y darllenir brawddegau o'r fath a ganlyn,—‘mae'n *raid* addef,’ mae'n *raid* cydnabod,’ ‘mae'n *ddrwg* genym *rhoddi*,’ ‘mae *tuedd* y bobl at *rhuddid*.’ Nid oedd yr hên bererin hwnw a roddodd Emyn ar ddechreu Cyfarfod Gweddi yn y modd canlynol—

‘Da iawn i *hwr* yw *dwyn* yr *iau*
Ac *ufuddhau* yn *fore*.’ &c.,

yn meddwl fawr am wrthuni ac anghyssondeb y geiriad. ‘I ba *le* yr *ydych* yn *myned*, *Dafydd*,’ gofynem yn ddiweddar i ddyn trwsiadus yr olwg. ‘I'r *anghladd*,’ oedd yr ateb. ‘I'r *angladd*,’ oedd y dyn yn feddwl, ac nid



anghlada. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y ddau air; anghladd yw claddedigaeth—*funeral.* Ond am anghladd (gydag *h*), ei ys-tyr yw—‘peth na chladdwyd neu na chleddir,’ anghladdedig—*unburied*; sylweddair yw *an-ghladd*, ond ansoddair yw *anghladd*.

Y mae'r Seison, mewn rhai parthau, yn agored i syrthio i'r camwri hwn, a cham-gyflêu yr *h*; ond y mae ganddynt hwy *esgus* dros wneyd hyny, gan fod yr *h* yn fynych yn fud-sain (*mute letter*) yn y Seisoneg, megys yn *hour, honest, honour*, a rhai geiriau ereill; ond nid mudsain mo honi un amser yn y Gymraeg. Gogoniant ac ardderchogrwydd ein hên iaith ni yw—y sŵnir pob llythyren yn *gyflawn yn wastad*.

Gyda golwg ar y llythyren hon, nis gallwn wneyd yn well nâ chynghori efrydwyr ieuainc (a phawb ag sy'n euog o gamgyflead yr *h*) i ddarllen ac astudio gweithiau yr awduron mwyaf coeth a chlasurol.

CYDGYFARFYDDIAD DWY R. Yn y pwnc hwn yr ydym yn cymmeradwyo y rheol ganlynol o eiddo Caerfallwch i sylw yr efryd-ydd:—“Pan fyddo dwy *r* yn cydgyfarfod mewn gair, y mae un o honynt yn syrthio

ymaith :—

Gwryw (gwr rhyw) *a male.*

Pedwaran (pedwar rhan), *a fourth.*

Eurwy (aur rhwy), *a gold ring.*

Moryd (môr rhyd), *sea ford."*

Nid ydym, ar yr un pryd, yn hollol gydwelod â'r Awdwr dysgedig uchod yng nghylch tarddiad y geiriau *gwryw a phedwaran*. Gwell genym ni gredu bod y gair *gwryw* yn tarddu o *gwr*, a'r terfyniad *yw*; yr un fath ag y ffurfir y gair *benyw* o bun neu *ben*, ac *yw*. Am *pedwaran* drachefn, credwn ei fod yn tarddu o *pedwar*, a'r terfyniad bychanig (*diminutive termination*) *an*, ac nad oes a fyño â *rhan* o gwbl.

Y mae *llyfr-rwymwr* a *mor-raglaw* yn gofyn dwy *r*, cyn cadw eu tarddiad a'u gwneyd yn ddealladwy: gwell rhoddi dwy hefyd yn *teirran* a *pedeirran*.

CYDGYFARFYDDIAD DWY W. Y mae amrywiaeth barn ym mysg ein Cymreigwyr goreu gyda golwg ar y priodoldeb o adael dwy *w* mewn llawws o eiriau, pan fyddont yn cydgyfarfod. Y modd y gwnawn ni *yw*, gosod dwy *w* yn y geiriau canlynol,—gloewwin, olew-wydden, llaw-waith, ffaw-wydd

(*fir trees*), lliw-wraig, a gwyw-wydd. Y mae yn ammhëus genym a ydyw *lliwydd* (*dyer*) yn eu gofyn.

Gwell genym y ffurfiau addawr, darllawr, gwrandawr, tarawr, addawn, gwrandawn, a'u cyffelyb, fel yn fwy llithrig a Chymreigiol nag addaw-wr, darllaw-wr, gwrandaw-wn, &c.

Y gair YN. Y rheolau a gymeradwywn ni mewn perthynas i'r arddodiad *yn*, yw y ddwy ganlynol:—

(i.) Cyfnewidier *yn yn ym*, o flaen geiriau yn dechreu ag *n* neu *mh*; megys, ym mynydd yr Olewyydd, ym medydd Ioan, ym Mhont-y-pridd, ym mhlwyf y Bettws, &c.

(ii.) Cyfnewidier *yn yn yng*, o flaen geiriau yn dechreu ag *ng* neu *ngh*; megys, yng ngo-goniant ei deyrnas, yng ngwyneb haul a llygad goleuni, yn nghymanfa'r saint, yn Ngheredigion, &c.

Na chyfnewidier y Banyn cyfraniadol *yn* o flaen cyfraniad, neu berwyddiaid *yn* y modd annherfynol, ond defnyddier ef heb yr un cyfnewidiad, fel y canlyn,—yn marw, yn milwrio, yn mwynhau, yn moliannu, &c. Nid oes yr un cyfystyr Seisoneg iddo yn yr engreiphtiau uchod.

Ysgrifena pleidwyr yr Ysgol Newydd *yn* bob amser, ac ni chyfnewidiant ef o gwbl i *ym* nac *yng*.

Ereill drachefn a ysgrifenant y gair *ym mhen* (fel engraipht), mewn gwahanol ffurfiau, megys, *ymmhen*, *y'mhen*, neu *ymhen*. Yr un modd hefyd y gwnant ag *ngl*: fel engraipht, ysgrifenant y gair *yng nghyd* yn *yngnghyd*, *y'nghyd* neu *ynghyd*. Y mae'n ofynol i'r Efrwydd, yn y pwnc hwn eto, ddewis ei ffurf a chadw ati yn wastad.

FF a PH. Dyma ddwy lythyren ag sydd wedi gofidio llawer arnom ni, ac yn ein gofidio o hyd. Credwn yn benderfynol y dylid sillibu llawer mwy o eiriau ag *ph*, nag a wneir yn bresennol, pan y mae eu tarddiad yn amwlg yn gofyn hyny.

A ganlyn sydd restr o eiriau a ddylid eu sillibu (yn ôl ein barn ni) ag *ph*, ac nid ag *ff*.

Corph	} o'r Lladin— <i>corpus</i> .
Corphori	
Corphorol &c.	

Gorphwys.

Gorphen.

Gorphenaf.

Gorphwyll.

Sarph	} o'r Lladin— <i>serpens</i> .
Sarphol	

Prophwydoliaeth, &c.	}	o'r Groeg— <i>prophmti</i> .
Prophwydo		
Prophwyd		
Philosophi	}	o'r Groeg— <i>philosopheia</i> .
Philosophydd &c.		
Argraph	}	o'r Groeg: <i>grapho</i> yw'r gwreiddyn.
Argraphu		
Arddygraph		
Orgraph		
Orgraphaeth		
Bywgraphiad		
Engraiph		
Paragraph		
Telegraph, &c.		
Ephratead	}	Geiriau estronol, wedi eu lled-Gymreigio.
Ephesiaid		
Philippiaid		
Seraphiaid		
Philistiaid		
Aiphtiaid, &c.		
Gopher	}	Geiriau estronol, heb eu Cymreigio
Joseph		
Ephrath		
Ophir		
Pharaoh		
Philippi		
Philemon		
Phinehas		
Philstia		
Philadelphia		
Saphir		
Theophilus, &c.		

Y mae Rowland, yn ei Rammadeg gorchestol a manwl, yn addef fod y rhesymau dros y llythyreniad uchod yn gadarn a rheolaidd, tra ar yr un pryd y mae efe ei hun yn eu sillafu ag *ff* gàn mwyaf. Ymddengys i ni fod Rowland, wrth wrthod yr *ph* yn y rhan fwyaf o'r geiriau uchod, a thrwy osod dwy *m* yn y gair *Grammadeg*, o herwydd ei fod yn tarddu o *grammatiki* (Groeg),—i raddau yn anghysson ag ef ei hun. Dywed hefyd mai un *t* ddylai fod yn *eto*, o herwydd ei fod yn tarddu o'r gair Lladin *etiam*. Y mae hyn o'r goreu; ond paham y dylid cydnabod tarddiad *rhai* geiriau, a gwrthod tarddiad ereill, pan yn gyfartal o ran dilysrwydd? Y mae hyn yn ddyrswch i ni.

PENNOD IX.

Dydolnod (··), *Cydnod* (-), *Tolnod* (') .

DYDOLNOD (··). Nid doeth defnyddio dydolnod (*diæresis*) ond yn unig lle bo gwir angenrheidrwydd am dani; ac yno gosoder hi ar y *flaenaf* o ddwy lafariad a fyddant i gael eu gwahanu a'u hysgaru; megys, gweddïo, egnïo, ysbïo, caniatâu, nesâu, pellâu bywhëir, sierhëir, parhäus, torfëydd, preswylfëydd, &c. Felly, y mae *gweddïo*, gyda'r ddydolnod, yn air o *dair sillaf*; pe hebddi, *dwysillaf* tyddai.

Cymmer bwytäwr, gwrändäwr, iachäwr, parläwr, taräwr, töwr, marchnatäwr, ufuddhäwr, &c., ddydolnod yn y rhif unigol, ond ni chymmerant yr un pan luosogir hwynt

Os dygwydd y llythyren *flaenaf* o'r ddwy a ddydolir fod yn *brif lythyren*, yna gosoder y ddydolnod (neu y ddydoleg) ar yr ail; megys, Ië.

Gellir gwneyd y gair *diwrnod* yn *dair sillaf*, pe angen am hyny, trwy ddydolnodi yr *i*.

Mae y geiriau canlynol, ym mha rai y cyfer-

fydd dwy lafariad gyfunrhyw, yn gofyn dydolnod; felly, ysgrifener hwynt fel y canlyn,—gwëedig, dilëer, gallaus, crëedig, gweddii gweddiid.

Dydolnoder yr *e* yn y terfyniadau lluosog canlynol, a'u cyffelyb—athrofëydd, gwasgfëydd rhodfëydd, gweithfëydd, hwylfëydd, lladdfëydd, morfëydd, preswylfëydd, torfëydd, &c.

Gofyn tÿrn, ston (seion), sïo, dial, crëu, a llëyg ddydolnod—cyn y gwneir cyfiawnder â hwynt. Dydoler y perwyddiad *ä* (aiff)—*will go*.

CYDNOD (-). Efallai mai prif ddyben cydnod neu gyssylltnod (*hyphen*) yw—cyfuno rhanau gair â'u gilydd, pan fyddo y rhan flaenaf o hono ar ddiwedd un llinell, a'r rhan olaf ar ddechreu yr un nesaf. Ei phriodol le yw ar ddiwedd y llinell gyntaf, er y gesyd rhai ddwy gydnod—un ar ddiwedd y gyntaf, a'r llall ar ddechreu yr ail; nis gellir beio hyn.

Defnyddier cydnod er gwahanu dwy lythyr-en gyfunrhyw; megys, cyd-ddrychiol, prif-fardd, dad-ddywedyd, senedd-dai, prif-ffordd, llaw-weithfa, gwyrdd-ddolydd, cyd-ddefnyddio, crefydd-dai, rhew-wynt, anghyfannedd-dra, prif-feini, digywilydd-dra, cyd-dywysu. ufudd-

dod, cof-feini, newydd-deb, hardd-deg, cyddystion, unig-genhedledig, gweddeidd-dra, prudd-der, &c.

Gellir ei defnyddio, os mŷnir, yn y geiriau a ganlyn,—cableiriau, cyssegrladrata, dirgelgynhor, gaudduwiaeth, llawrdyrnu, hunan-gariad, cyfangwbl, hunanymwadiad, penarglwyddiaeth, ffugenwau, beddargraph, priodfab, yng nghyd ag amryw ereill.

Yr ydym yn anghymeradwyo cydnod yn y geiriau canlynol,—arogldarth, cadeirfardd, dadwneyd, gorseddfainc, cydgân, gwahanglwyf, ailenedigaeth, daiargryn, rhyfeddnod, dosbarthnod, yng nghyd â lluaws o'u cyffelyb.

TOLNOD neu SILLGOLL ('). Y mae y Gymraeg yn gofyn gwasanaeth tolnod neu sillgoll (*apostrophe*) ar brydiau. Tolnodir y bannod *yr*, a'r banyn *yn* yn fynych iawn; megys, y mae'r peth a'r peth wedi cymmeryd lle, y mae'r dyn yn hoff o gelu'r gwir, heibio'r tŷ a thua'r ardd; mae'n gwlawio, mae'n tywyllu, &c.

Er hwylusdod i'r efrydwyr ieuainc, rhoddwn yma restr o eiriau unsill a dolnodir yn fynych,—

A'th	} Yn lle }	Ac yth, a dy
A'u		Ac eu, a eu
Fe'm neu fo'm		Fe ym, neu fo ym
I'th		Idd yth, i dy
Mae'm		Mae fy, mae ym
Mae'n		Mae ein
Mae'r		Mae yr
Ni'th		Ni yth, ni dy
Pa'm		Paham
Pe'i		Ped ei
P'le		Pa le
Rhai'n		Rhai hyn
Rhei'ny		Rhai hyny
Sy'm		Sydd ym
Sy'n		Sydd yn
Sy'ng		Sydd yng
Y'th		Y yth, y dy

Gellid chwyddo y rhestr uchod i faintioli anferth â chyfryw siamplau; ond credwn y gwasanaetha'r uchod y dyben.

Chwaeth y cyfansoddwr, yng nghyd â rhediad yr ymadrodd, a ddywed pa un ai tolnodi ai peidio fydd oreu.

Arfer wrthun iawn yw ysgrifenu—bla'n, co'd, gwa'd, ma'n (maen), ma's, tra'd, gro's, o'n, llo'r, da'r neu dae'r (daiar), erio'd, &c., a hyny i ddim pwrpas yn byd ond er mwyn odl a chynghanedd.

Yr ydym yn condemnio yr arfer atgas o

dori ymaith y llythyren *f* ar ddiwedd geiriau o fath y rhai canlynol,—*clwy'*, *cry'*, *ha'*, *lle'*, *ne'*, *nwy'*, *plwy'*, *pry'*, *rhi'*, *rhwy'*, *adle'*, *cyfri'* &c. *Odl* eto (meddir) syn achosi hyn fynychaf.

[Yn yr Argraphiad cyntaf, cwynem nad oedd ein gofod yn caniatäu i sylwi ar yr Attalnodau (*stops*), yng nghyd â'r gweddill o'r Arwyddnodau a'r Cyfeirnodau; ond gan fod yr Argraphiad hwn yn helaethach, gwnawn sylwi arnynt yn y bennod sy'n canlyn.]

PENNOD X.

Y Prif Lythyrenau (Capital Letters), *a'r Atalnodau* (Stops.)

Rhodder *prif lythyrenau*—

Ar ddechreu pob llyfr, ysgrif, cyfansoddiad, &c.

Ar ddechreu pob llinell o brydyddiaeth.

Ar ôl pob diweddnod (*period*); ac weithiau ar ôl rhyfeddnod a gofynnod.

Ar ddechreu enwau priodol (*proper names*) o bob math; megys,—

Enwau dynion o bob math a dosbarth.

Enwau lleoedd—yn drefi, pentrefi, gwled-

ydd, mynyddoedd, moroedd, afonydd, &c.

Enwau perthynol i'r Duwdod.

Enwau anifeiliaid, llongau, &c.

Cyfenwau (*surnames*) yn perthyn i enwau priodol.

Enwau misoedd, a dyddiau'r wythnos.

Enwau llyfrau o bob math.

Enwau pleidiau, enwadau, a sefydliadau.

Yr Ebychiaid (*interjections*) A! ac O! neu Oh! Nid oes eisieu ysgrifenu y Rhagenw personol *i* (mi) â phrif lythyren: dynwared y Seison yw hyn.

Na ddefnyddier prif lythyren yng nghanol gair, na chwaith yn ei ddiwedd; oddieithr iddo fod yn brif lythyrenau i gyd, megys "HWN YW IESU, BRENIN YR IUDD-EWON."

Os bydd yr Awdwr, pan yn ysgrifenu i'r wasg, am roddi gair mewn *Llythyrenau Italaid* (*Italics*), tyned *un* llinell o dan y gair hwnw; os am BRIF LYTHYRENAU BYCHAIN, rhodded *ddwy* llinell dan hwnw; ond os am BRIF LYTHYRENAU, yna rhodded *dair* llinell dano.

'Nid da rhy (gormod) o ddim,' medd yr hên ddiareb; felly, nid da gormod o'r llinellu

yma. Y mae angen am rai o honynt weithiau ; ond defnyddier hwynt mór anfynych ag sydd bossibl, canys y maent yn drafferthus a chostus.

Yr ATTALNODAU (*stops*). Y mae'n ofynol talu sylw manwl i'r Attalnodau, cyn byth meddwl dyfod yn ddarllenwr gwych neu gyfansoddwr hwylus a chyflawn. Sylwed yr efrydydd yn fanwl ar eu llun a'u dyben, fel eu gosodwn yma :—

Eu Nodau.

Eu henwau.

- | | |
|------|---|
| 1. , | Adwahannod neu Rhagwahannod
(<i>Comma.</i>) |
| 2. ; | Gwahannod neu Hanner Dryll-ymadrodd (<i>semicolon.</i>) |
| 3. : | Gorwahannod neu Ddryll-ymadrodd
(<i>Colon.</i>) |
| 4. . | Diweddnod neu Orphwysnod (<i>Period or Full Stop.</i>) |
| 5. ? | Gofynnod (<i>Note of Interrogation.</i>) |
| 6. ! | Rhyfeddnod (<i>Note of Admiration or Exclamation.</i>) |

1. ADWAHANNOD (,) yw y lleiaf o honynt ; ac eto nid yw yn ddiiddefnydd, ond yn anhegorol angenrheidiol i ranu ymadroddion yn ddosbarthiadau byrion, er mwyn eu gwneyd yn ddeallus, hyd oni ddelont yng nghyd yn gyflawn synwyr ; megys y gwelir yn y geiriau hyn,—“ Diwrnod llidiog yw'r diwrnod hwnw,

diwrnod tralod a chyfyngdra, diwrnod dinystr ac anghyfannedd-dra, diwrnod tywyll, a du, diwrnod cymmylau a thywyllni." (SEPH. 1. 15.) Mewn rhês o sylweddeiriau yn dilyn eu gilydd, defnyddir adwahannod ar ôl pob un o honynt; megys, "Ffrwyth yr Ysbyrd yw, cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, cymmwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest." (GAL. v. 22.) Yr un fath yn union y gwneir â rhês o berwyddiaid, neu ansoddeiriau. Dylid attal y llais wrth y nôd hwn cyhyd ag y rhifer *un* yn ddystaw a phwyllog.

2. GWAHANNOD (;). Mae y nôd hwn yn dangos nad yw y synwyr yn gyflawn heb ychwanegiad, fel y gwelir yn y geiriau hyn,—Hir hoedl sydd yn ei llaw ddeheu hi; ac yn ei llaw aswy y mae cyfoeth a gogoniant." (DIAR. iii. 16.) Y mae hwn yn gofyn hwy gorphwysiad nag adwahannod, am hyny dylid attal y llais arno cyhyd o amser ag y rhifer *dau*.

GORWAHANNOD (:) a ddefnyddir ar ôl ymadroddion cyflawn, neu a fyddo yn cynnwys synwyr digonol ynddynt eu hunain; megys, "Wele, ti a wnaethpwyd yn iach : na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth." (IOAN. v. 14.) Y mae hwn drachefn

yn hirach nâ'r uchod, a dylid attal yr anadl arno cyhyd ag y rhifir *tri*.

Anfynych yr arferir y nôd hwn yn bresennol. Y mae lluwys o ysgrifenywyr gwych o'r farn taw gwell peidio ei ddefnyddio o gwbl. Y mae ein tueddiad niunau at hynny, o herwydd credwn y gwasanaetha gwahannod (*semicolon*) yn ei le.

4. DIWEDDNOD (.) Mae y nôd hwn yn arwyddo terfyniad y frawddeg a fyddo mewn llaw. Arferir ef yn wastad ar ôl ymadroddion ag sydd yn cynnwys ynddynt synwyr cyflawn—heb ychwanegu atynt. Y mae yn yr adnod ganlynol bedair brawddeg gyflawn,—“Perchwch bawb. Cerwch y frawdoliaeth. Ofnwch Dduw. Anrhydeddwch y breuin.” (1 PEDR ii. 17.)

Rhodder y nôd hwn ar ol talfyriad geiriau, ac ar ôl llythyrenau yn sefyll am eiriau; megys, pen., am pennod; tud., am tudalen; ysg., am ysgrifenydd; D.S., am dalier sylw; O.B., am oed y byd; Y.H., am ynad heddwch.

Y mae diweddnod yn gofyn y gorphwysiad hwyaf; dylid attal y llais tra y rhifir *chwech* ar ôl hwn. Cofied yr efrydydd bob amser wrth ysgrifenu, am roddi prif lythyren yn

nechreu y frawddeg ganlynol.

5. GOFYNNOD (?), a arferir bob amser pan fyddo rhyw gwestiwn yn cael ei ofyn; megys yn y geiriau canlynol a'u cyffelyb,—“Beth yr wyt ti yn ei dybied? Ai cyfreithlawn rhoddi teyrnged i Cesar, ai nid yw.” (MAT. xxii. 17.)

Arferir gofynnod hefyd fel nôd o ammheuaeth neu betrusder, megys—‘Chwareuwyd yn feistrolgar (?) ar y berdoneg.’ Dengys y nôd uchod fod ammheuaeth yng nghylch y ‘chwareu meistrolgar’ y cyfeirir ato. Dylid cymmeryd anadl dros ennyd ar ôl y nôd hwn, cyn rhoddi'r atebiad.

6. RHYFEDDNOD (!), a arwydda fod yr ymadrodd blaenorol iddo yn cynnwys ynddynt ryfeddod, neu ryw syndod aruthrol a chyffrösus; fel y gwelir yn amlwg yn y geiriau canlynol,—“Oh ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw! môr anchwiliadwy yw ei farnau ef! a'i ffyrdd, môr anolrheinadwy ydynt!” (RHUF. xi. 33.)

Dylid darllen y geiriau uchod a'u cyffelyb, gydag ystyriaeth ddifrifol, gan attal y llais ar ôl y nôd hwn cyhyd ag y rhifer *pedwar*.

Er cymmaint a ddywedwyd uchod ar y gwahanol attalnodau, fe ddichon taw sylw a

synwyr yr ysgrifenydd deallgar sydd oreu i benderfynu pa attalnod i ddefnyddio.

Gyda golwg ar yr Arwyddnodou a'r Cyfeirnodau, ymgynghored yr efrydydd â llyfrau helaethach nâ hwn. Y mae y cyfryw yn rhy luosog i ni sylwi arnynt ar hyn o bryd; a goreu po leiaf o ddefnydd a wneir o honynt, gan eu bod yn ddyrys a ffwdanus i'r eithaf.

PENNOD XI.

Amrywion.

GAN mai "Amrywion" yw teitl y Bennod hon, ofer felly edrych am unrhyw drefnusrwydd neillduol yn yr ymdriniaeth.

DI a DY. Blaenddawd negyddol (*negative prefix*) yw *di*, yn cyfateb i *dis*, *in*, *un* a'r ol-ddodiad (*suffix*) *less* yn Seisoneg; felly defnyddier ef yn y geiriau a ganlyn,—dibaid, diben (*endless*) diflas, digalon, difalch, dilês, diderfyn, dihawdd, diragrith, diwerth, yng nghyd â llu o'u cyffelyb.

Blaenddawd cadarnhaol (*intensive prefix*) yw *dy*, a dylid ei arfer yn y geiriau canlynol,—dyfal, dyeithr, dywyg, dyben (*end or purpose*),

dyddan, dyferu, dyrwyn, dyfetha, dygwydd, dyoddef, dynoethi yng nghyd ag amryw ereill, ym mha rai y gosodir *di* y rhan amlaf gan ddechreuwyr, trwy ddilyn llafar gwlad.

DIS a DYS. Y mae'r un gwahanieath yn union rhwng *dis* a *dys*, ag sy rhwng *di* a *dy*: hyny yw, y mae *dis* yn negyddol (*negative*), a *dys* yn gadarnhaol (*intensive*.) Cofier yn wastadol am ddefnyddio y blaenddawd *dys* (ac nid *dis*) yn y geiriau canlynol,—dysglaer, dysgleirio, dysgwyl, dysgybl, dysgrifio (desgrifio), dystewi, dystaw, dysgyrchol, dyspyddu, &c.

Ysgrifener Beibl, deial (*dial*), teitl, meitr a seion,— yn hytrach nâ Bibl, dial, titl, mitr, a sion.

Gwell genym y ffurfiau 'yr wyf yn barnu,' 'yr wyf yn credu,' 'yr wyf yn dysgu,' &c., neu ynte 'barnaf,' 'credaf,' 'dysgaf,' &c.,—fel yn fwy rheolaidd yn y modd mynegol (*Indicative Mood*) nâ'r ffurfiau diweddaraf 'barnwyf,' 'credwyf,' 'dysgwyf,' &c. Y mae y ffurfiau olaf hyn, pa rai a welir fynychaf yn ein Newyddiadyron, yn perthyn yn briodol i'r modd ammodol (*Conditional or Subjunctive Mood*).

TEIMLADWY a TEIMLADOL. Y mae terfyniadau y ddau ansoddair yma yn achosi

gwahaniaeth o bwys yn eu hystyron. *Teimladwy* yw rhywbeth a ellir ei deimlo—*what can be felt (in a Passive sense)*; ac ystyr *teimladol* yw un yn teimlo—*one who feels (in an Active sense)*.

Yr ydym dros ysgrifenu y geiriau *ato* ac *eto* ag un *t*.

Gwell genym y ffurfiau diweddar a ganlyn, —bywiogrwydd, gwerthfawrogrwydd, mawreddogrwydd, ardderchogrwydd, galluogrwydd, lluosogrwydd, gwresogrwydd, serchogrwydd, trugarogrwydd, &c.—fel yn fwy clasurol a dillyn nâ bywiogrwydd, gwerthfawrogrwydd, &c. Nid ydynt yn gofyn am yr *w* o gwbl, canys ffurfir hwynt o ansoddeiriau a derfynant yn *og* (ac nid *awg*, oddieithr weithiau mewn Barddonieath), megys, bywiog, ardderchog, galluog, lluosog, &c.

PA a PWY. Defnyddier *pa* gyda sylweddair bob amser; megys, pa ddyn, pa wlad, pa athrawiaeth newydd yw hon, &c.; a defnyddier *pwy* gyda rhyw air arall, megys, pwy yw hwn, pwy bynag, &c.

“*Pa* dafod all dewi am hyn,
Pa galon mor galed na thôdd.”

Y mae lluaws o ysgrifenywyr y dyddiau presennol yn lled chwannog i arfer y ffurf wrthun

pawb dynion—am pob dynion, pob dyn, neu pawb. Rhagenw luosog yw *pawb*, ac ni ddylid ei gyssylltu un amser â sylweddair, fel y gwneir yn *pawb dynion*. Gellir defnyddio *pob* gyda sylweddair unigol neu luosog, megys, *pob archeb*, neu *pob archebion*: goddefiad yw'r ffurf olaf.

GYDA ac ^A. Y mae i'r ddau Arddodiad hyn eu gwahanol safleoedd. Cyfystyr *gyda* yw *along with* neu *together with* yn Seisoneg, megys, myned *gyda* hwn a hwn. Cyfystyr *â* yw *with*, megys, ymadael *â* chyfaill, priodi *â* hwn a hwn, &c.

Y mae'n well genym ni silliadu Cymraeg, Cymro, Cymru, &c., ag un *m*, nag â dwy.

DIRWYO a DIRYWIO. Y mae gwahan-iaeth pwysig rhwng y ddau berwyddiad hyn. *Dirwyo* yw *cospi*—*to fine, or to mulct*; *dirywio* yw *gwaethygu*—*to deteriorate, or to become worse*; megys, 'y mae Dafydd wedi *dirywio* (gwaethygu) llawer er pan *ddirwywyd* (gospwyd) ef y dydd o'r blaen?'

Y mae *alltudo* (heb yr *i*) yn llawn môr rheolaidd ag *alltudio*; felly hefyd, y mae *cysylltadwy* a *cyssylltedig* (heb yr *i*) yn llawn môr gywir a *cyssylltiadwy* a *cyssylltiedig*. Felly

hefyd gellir defnyddio *olrheinadwy* ac *olrhein-iadwy* yn ddiwahaniaeth.

MEISTROLAIDD a MEISTROLGAR. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y ddau an-soddair hyn, ond anaml y cedwir ef mewn golwg. *Meistrolaidd* yw medrus neu gelfydd (*—masterly*), megys, 'chwareuodd y ferch yn feistrolaidd iawn?' *Meistrolgar* yw gormesol, neu un yn caru meistrolï (*—despotic*), megys, 'dyn meistrolgar iawn yw hwn a hwn.'

Dau air arall a gam-gyflëir yn fynych iawn yw *gweithgar* a *gweithiol*. Y mae cyffelyb wahan-iaeth rhyngddynt a'r ddau air blaenorol: ystyr *gweithgar* yw un yn caru gweithio, diwyd, neu llafurus (*—industrious*); ac ystyr *gweithiol* yw un yn arfer neu yn byw ar weithio (*working*). Felly, wrth ddyweyd 'y dosbarth *gweithgar*,' deallwn y rhai hyny sydd yn caru a hoffi gweithio—*the industrious class*: a phan yn dyweyd y 'dosbarth *gweithiol*' deallwn y rhai hyny sydd yn byw ar weithio, *gweithwyr—the labouring or working class*.

Y terfyniad IG. Gellir defnyddio ffurfiau lluosog rhai ansoddeiriau a derfynant yn *ig* fel sylweddeiriau; megys, boneddigion, caredig-

ion, dysgedigion, etholedigion, gwynfydedigion, &c.

Ysgrifener braster, craster. digter, toster, a tosturi, yn hytrach nâ brasder, crasder, digder, &c—fel yn rwy cydnaws â'r cynaniad.

PENNODOL a PENODOL. Y mae gwahaniaeth o bwys rhwng y ddau air hyn, er mai anfynych iawn yr arferir y blaenaf. Ystyr *pennodol* yw—perthynol i bennod neu bennodau; ond ystyr *penodol* (gydag un *n*) yw neillduol neu arbenigol (—*particular* or *especial*).

Mae *prenau* a *preniau* yn ffurfiau rheolaidd cywir o *pren*, a gellir defnyddio yr un a fyner.

Ffurf anghywir yw *hawsach*. *Haws* neu *hawddach* sydd gywir; megys, 'y mae'n haws neu hawddach (nid hawsach) diwyllio meddwl yr ieuaine nâ'r hen.' "Canys [*haws* yw i gamel fyned trwy grau y nodwydd ddur nag i oludog fyned i deyrnas Dduw." (LUC. xviii. 25.) Oddiwrth yr engreiphtiau uchod, gwelir mai *haws* neu *hawddach* yw ffurfiau priodol y ganolradd neu'r uchradd (—*comparative degree*), a bod *hawsach* yn hollol anghywir.

NWYDD a NWYF. Dyma ddau sylwedd-air a gam-gyflëir ambell waith gan ddechreu-wyr. Ystyr *nwydd* (neu *nwyddau*—lluosog)

yw moddion neu bethau (—*goods*), megys, nwyddau sylldy—*shop goods*, pêr nwyddau—*groceries*. *Nwyf* yw bywiogrwydd neu hoen (—*liveliness* or *vivacity*), megys, ‘y mae’r ceffyl yn nwyfus iawn’—*the horse is very frisky or sprightly*.

Gocheled yr efrydydd rhag gwneyd *llefydd* yn rhif luosog i *lle*: camgymeriad dybryd yw hyn. Rhif luosog *lle* yw *lleoedd*, ac nid oes a fÿno *llefydd* ag ef o gwbl. Ystyr y gair *llefydd* yw un yn llefain neu grio—llefwr neu griwr.

RHAGFYR ynte RHAGFUR? Dichon taw gwell fyddai cadw at y blaenaf, gan ei fod yn hynach terfyniad ac yn fwy cynnwynol nag *ur*. Ar yr un pryd, y mae y rheswm a ddyry Ceiriog Hughes dros Rhagfur yn gywrain dros ben. Fel hyn y dywed yn ei ddernyn “Amser yn enwi ei Blant,”—

“A’r olaf o’r deuddeg
A enwyd ar antur;
I’r fwyddyn ddilynol
Efe oedd y *Rhagfur*.”

Y mae i’r gair *dibris* ddau ystyr; ond rhaid ei acenu yn wahanol er gosod allan y naill a’r llall. Ystyr *dibris* (gyda’r acen ddisgynedig) yw esgeulus neu ysmala (—*reckless*); megys,

‘dyn dibris iawn yw hwn-a-hwn.’ Ystyr y gair dibris (gydag *i* hir) yw diwerth neu dilês (—*valueless or worthless*); megys, “Nid yw prophwyd yn *ddibris* (*without honour*) ond yn ei wlad ei hun.” (MARC vi. 4.)

IEUENCTID a IEUENCTYD. Yr ydym ni o’r farn y dylid gwneyd gwahaniaeth rhwng ystyron y geiriau hyn. *Ieuentid* yw pobl ieuaic, yr ieuentid,—sylweddair gwrywaidd ydyw. *Ieuentyd*, drachefn, yw tymmor ieuentyd neu mebyd (*youth*)—sylweddair cyffredin ydyw. Er fod mwyafrif llenorion y dyddiau presennol yn defnyddio’r uchod yn wahanol, nid ydym ni ar hyn o bryd yn barod i gyfnewid ein barn, ac nid ydym yn eu beio hwythau.

Y mae y ffurfiau ystorm, ystad, ystanc, ystwc, ystafell, ystôr, ystabl, ystrôd, ysgrafell, ysgrifen, ysmotyn, ac ereill o’r un blaenddawd, yn fwy Cymreigaidd nâ’r ffurfiau diweddaraf storm, stad, stanc, stwc, stôr, &c.

Y mae ‘sêl’ yn well nâ ‘zêl.’ Ffurfiau Seisnigaidd yw y ddwy o ran hyny; ond nid ydym i gydnabod z fel llythyren Gymraeg o gwbl.

SANCTAIDD a SANTAIDD. Gwell gen-

ym ni y ffurf flaenaf o'r ddwy (*sanctaidd*), fel yn hênach, ac yn fwy unol â'r gwreiddiol, nâ'r olaf. Y mae'n amlwg ei fod yn deilliau o'r gair Lladin *sanctus*, a cheidw yr *c* ei lle yn y gair Cymraeg, yn gystal ag yn y Lladin, heb achosi y rhwystr lleiaf i'r parabliad.

Ffurfiâu anghywir yw *gwnae*, *pe bae*, a *rhoe*, am *gwnai* (gwnelai), *pe bai* (pe byddai), a *rhoi* neu *rho'i* (rhoddai). Y ffurfiâu anghywir, er hyny, a welir fynychaf yn ein cyfnodolion. Sylwer ynte ar y ffurfiâu cywir.

Mae *twysen* yn llawn môr gywir a *tywysen*; ond y mae'r olaf yn fwy cynanol.

MWNAI a MWNAU. Y mae gwahaniaeth pwysig yn ystyron y ddau air uchod. *Mwnai* (rhif unigol) yw arian bathol (*—coin*); a *mwnau* (rhif luosog) yw mwn-gloddfeydd (*—mines*) Fe ddichon taw *mwn* yw gwreidd-air y ddau.

Y mae *pelydr* yn ffurf luosog reolaidd o *pehydryn* (*—sunbeam*), er mai *pelydron* neu *peydrau* a welir fynychaf.

Mae *byddariaid* a *byddarion* yn ffurfiâu lluosog cywir o *byddar*; felly hefyd y mae *deilliaid* a *deillion* o *dall*. Ceir *byddarion* yn yr Apocrypha, a chyfarfyddir â *deilliaid* yn Es xlii. 16.

IACHAWDWRIAETH a IECHYDWR-
IAETH. Y mae'r ddau air yn gywir yn eu
sillafiad, ond dylid eu cyflëu yn wahanol;
megys, iachawdwriaeth yr *cnaid*, ond iechyd-
wriaeth y *corph*.

Mewn rhigymau, a phennillien heb na rhim-
yn na rheswm, ceir rhai geiriau unsill yn
fynych wedi eu torfynyglu a'u dirdynu yn
dost; megys, ochor, pobol, symyl, gwobor,
swgwr, storom, &c., am ochr, pobl, syml.
gwobr, &c.

Gellir cymmeryd y gair *neb* gyda sylwedd-
air unigol neu luosog, fel y gwelir oddiwrth yr
engreiphtiau canlynol,—(unigol) “ac nad elom
mewn *neb rhyw berygl*” (Llyfr Gweddi Gyff-
redin); (luosog) “nad ofnom allu *neb gwrth-*
wynebwy.” (Llyfr Gweddi Gyffredin).

ANHAWDD ac ANNHAWDD. Y mae
gwahaniaeth hanfodol rhwng y ddau ansodd-
air hyn. er nad oes ond *un* lythyren o wahan-
iaeth yn eu sillibiaeth. *Anhawdd* yw dyrys
neu afrwydd (—*difficult*); ond *annhawdd*
(gyda *dwyn*) yw annhoddadwy neu annhodd-
edig (—*indissolvable*) ac yn deilliaw o *tawdd*
neu *toddi*.

Mynych y clywir y geiriau *cymdeithas* ac

adeilad yn gael eu darllen yn *cymdeithias* ac *adeiliaid*: y mae hyny yn hollol anghywir, canys nid oes ond un *i* ym mhob un o honynt. O'r tu arall, gadewir un *i* allan yn fynych yn y gair *annuwiolion*, a darllenir ef yn *annuwolion*: y mae hyn eto yn anghywir, canys hawlia y gair ddwy *i*. Hefyd, nid yw y gair *tystiolaethu* yn gofyn ond un *i*; ammhriodol ysgrifenu *tystioliaethu*.

HOLL ac OLL. Er mai yr un ystyr sydd i'r ddau air unsill hyn, eto y mae iddynt eu gwahanol safleoedd. Y mae *holl* yn rhagflaenu y sylweddair y perthyn iddo, megys, yr *holl* cyfansoddiadau; ac y mae *oill* yn ei ganlyn' megys, y cyfansoddiadau *oill*. Y mae *oill*, ar brydiau, yn rhagflaenu y sylweddair, ond y mae'n gofyn gwasanaeth *o* (neu *o'r*) y pryd hyny, megys, yr *oill o'r* cyfansoddiadau.

Gocheled dechreuwyr rhag ysgrifenu *aeddfed* (am *addfed*), ac *aeddfwyn* (am *addfwyn*); *add* yw'r Blaenddawd yn y ddau air uchod, o ganlyniad ni ddylid eu sillafu ag *aedd* o gwbl. Nis gallwn ddwyn i gôf ar hyn o bryd pa un a ydym wedi gweled *hanffodol* a *tangneddef* mewn argraph ai peidio, ond yr ydym yn sicr mai nid unwaith nâ dwywaith y clywsom

eu darllen yn y modd uchod; cofier mai *hanfodol a tangnefedd* yw y ffurfiau priodol, a darllener ac ysgrifener hwynt felly.

CYNNRYCHOL a CYNNYRCHOL. Y mae gwahaniaeth o bwys mewn ystyr a sillibiaeth rhwng y ddau Ansoddair yma, ond nid yw dechreuwyr, fel rheol, yn sylwi ar hyny. Ystyr *cynnrychiol* yw presennol neu gwyddfodol; *cynnrychioli* yw sefyll (neu osod un) dros arall (—*to substitute*), megys, ‘mi a *gynnrychiolais* Ioan mewn Eisteddfod y dydd o’r blaen.’ Ond ystyr *cynnyrchiol* yw toreithiog neu ffrwythlawn; *productive* (or *abundant*) yw ei gyfystyr yn Seisoneg, megys, ‘cawod *gynnyrchiol*,’ ‘ffrwythau *cynnyrchiol*.’ Yr un yw *cynnrychiol* â *cynddrychiol* neu *cynddrychol*. Yn Llyfr yr ACTAU (pen. xxviii., adn. 2) ceir “cawod *gynnrychiol*”: fel hyn y rhêd yr adnod,—“ar barbariaid a ddangosasant i ni fwyneidd-dra nid bychan: oblegyd hwy a gynneusant dân, ac a’n derbyniasant ni oll, o herwydd y gawod *gynnrychiol* ac o herwydd yr oerfel.” *Present rain* yw’r Seisoneg am *cawod gynnrychiol*.

Nid oes y fath air a *gwaun* yn y Gymraeg o gwbl. *Gwaen* yw’r gair am ddôl neu weir-

glawdd (—*meadow*), a *gweunydd* yw y ffurf luosog o hono. Abergwaen, Castellywaen, Pwlllywaen, Tynywaen, ac ereill o'r un terfyniad, yw y ffurfiau priodol. *Gwain* (sylwedd-air), drachefn, yw côd neu amwisg (—*sheath or scabbard*), megys, “Dod dy gleddyf yn y wain.” (IOAN xviii. 2.)

CYMMAINT a CHYNNIFER. Camleolir y ddau ansoddair yma yn fynych, trwy ddefnyddio y naill yn lle y llall. Cofier fod *cymmaint* yn golygu maint neu swm, a *cynnifer* rifedi; megys, *cymmaint* o fara, *cynnifer* o ddyinion.

Ammhriodol a gwrthun yw arfer y gair afreidiol diweddar *amrai*, yn lle yr hen air gwarantedig *amryw*. Nid oes un ysgrifennwr Cymraeg da erioed wedi arfer *amrai*. Tybia rhai, fe ddichon, fod *amrai* yn ffurf luosog o *amryw*; ond anghofiant, mae'n debyg, fod *amryw* yn lluosog hefyd, megys, *amryw* lyfrau *amryw* destynau, &c. Arferer *amryw*.

GODDEFGAR a GODDEFOL. Y mae dysgawdwyr yn gwahaniaethu rhwng y ddau ansoddair uchod. Dywedir fod *goddefgar* yn gyfystyr â *tolerant* neu *forbearing* yn Seisoneg; a bod *goddefol* yn cyfateb i *tolerable* neu *suffer-*

ing. Tybiwn fod *goddefol* yn gyfystyr â *goddefus*.

Y mae yn hen arferiad bellach i osod o neu o'r o flaen y geiriau *braidd* a *bron*. Ond er ei bod yn hên, ac er y dilynir hi gan ysgrifenywyr gwych, eto ni chyfreithlonir hi gan gyfieithwyr y Beibl, fel y gwelir oddiwrth y dyfyniadau canlynol.—“*Braidd* na'm difasant ar y ddaiar:” (PSALM cxix. 87.) “*Braidd* yr attaliasant y bobl rhag aberthu.” (ACTAU xiv. 18, &c.)

BLAEN ac ÔL. Y mae i bob un o'r ddau *dair* ffurf yn y rhif lluosog. Ffurfiâu lluosog *blaen* ydynt *blaenau*, *blaeniaid*, a *blaenion*; a chofier nas gellir defnyddio y naill yn lle y llall. Ystyr *blaenau* yw gororau neu eithafon (—*borders* or *extremities*); *blaeniaid* yw arweinyddion neu y rhai blaenaf (—*leaders*); a *blaenion* yw goreuon (—*best* or *chief*). Y mae i *ôl*, yr un modd, *dair* ffurf yn y rhif luosog; ac ammhriodol fyddai defnyddio un yn lle y llall. Dyma nhw,—*olau*, *oliaid*, ac *olion*. *Olau* yw marciau neu nodau (—*marks* or *footsteps*); *oliaid* yw canlynwyr neu rhai or tu ôl (—*the rear* or *those that are behind*); ac *olion* yw gweddillion (—*remains* or *refuse*).

PENNOD XII.

Chwanegion.

YR ydym yn anghymeradwyo y geiriau llygredig cymmysgryw a ganlyn,—mwrddro, trênn, siop, cwmpni, powdrau, usio, pasio, tric, tasc, lefel, cleimio, treio, sutio, considro, parc, comiti, lês, appêl, mentro, stopio, wincio, &c., &c., tra y gellir cael ffurfiau Cymreig cymhwys a dilediaith yn eu lle.

Rhodder *ym* yn derfyniad i berwyddiaid, yn y person cyntaf o'r amser gorphenol yn y môdd mynegol, yn hytrach nag *um*; megys, aethym, daethym, gwnaethym: ond cymmer cyfansoddion (*compounds*) y perwyddiad "bod" y terfyniad *um*, megys, canfûm, cyfarfûm, gwybûm, &c.

Nid pawb sydd yn sylwi ar y gwahaniaeth sy'n bodoli rhwng *dug* a *dwg* (neu *dyg*). *Dug* (—dygodd) yw'r ffurf briodol o'r 3ydd person, rhif unigol, amser *gorphenol*, môdd mynegol, o'r perwyddiad *dwyn* (*to bring*). *Dwg* neu *dyg* yw'r ffurf yn y 3ydd person, rhif unigol, o'r amser *dyfodol*, yn yr un môdd. *Dwg* hefyd

yw'r ffurf briodol yn y môdd gorchymmynol
(*imp. mood*).

Mwy priodol defnyddio 'y drydedd a'r bedwaredd adnod,' 'y seithfed a'r wythfed dyn' &c., nâ 'y drydedd a'r bedwaredd adnodau,' 'y seithfed a'r wythfed dynion,' &c.

Nid ydym yn hoffi y ffurfiau sathredig 'budyr,' 'cwnu,' 'diwedydd,' 'piwr,' 'clasgu,' 'deyd,' 'gaddo,' 'oglau,' &c.: gwell hebddynt.

Yr ydym yn ffeiddio yr arferiad atgas o ddefnyddio geiriau Seisoneg mewn erthygl neu gyfansoddiad Cymraeg. Pe ond taflu cipolwg dros unrhyw bapyr wythnosol, deurn o hyd i'r geiriau Seisoneg canlynol a'u cyffelyb—platform, steam, turncoat, address, fund, concert, subscriber, frame, committee, ballot, strike, order (arceb), vote, surplus, soup, rights, factory, trustee, agent, manager, arbitration, telegraph. programme. contract, &c., &c. Gellid yn hawdd nodi llu o honynt; y maent yn britho ein papyrau o wythnos i wythnos. Beth sy'n achosi hyn ynte? Ai tloedi ac amddifadrwydd y Gymraeg o eiriau cymhwys a phriodol? Nac e, mewn un modd; eithr diffyg chwaeth, diffyg gwybod-aeth, a diffyg gofal.

Y mae yng Ngweithiau I. Glân Geirionydd draethawd galluog ar “Gymreigio Seisoneg.” Wele yn canlyn y ddwy ‘rëol anhebgorol’ a ddilynai Ieuan pan yn Cymreigio geiriau estronol,—“Rheol I. Bod i’r gair Seisoneg a Gymreigier fod yn fwy dealladwy i’r Cymry yn gyffredinol nag un gair Cymreig a ellid ei ddefnyddio. Rheol II. Ei fod yn gyfryw ag a aller ei Gymreigio yn drwyadl, a’i ddefnyddio yn hollol; sef yn un y galler ei lösogi a’i dreiglo yn rhwydd a rhëolaidd yn ôl ansawdd ac anian-deithi yr iaith Gymraeg, megys tenant—tenantiaid, ffarm—ffermydd, &c.” Yna y mae yn canlyn luaws o resymau dros y cyfryw arferiad. Y mae luaws o eiriau Seisoneg heb gyfystyron Cymraeg—priodol a chymhwys; o ganlyniad, rhaid eu Cymreigio yn ôl y rheolau uchod (neu yn ôl rhyw reolau eraill), neu eu defnyddio yn Seisoneg, neu beidio eu defnyddio o gwbl.

Yr ydym dros gadw y Gymraeg môr bur a diledryw o ran llythyreniaeth a chystrawiaeth ag sydd bossibl; ar yr un pryd, yr ydym yn ffeiddio gorfeirniadaeth a mursendod. Barbareidd-dra, yn hytrach nâ diwylliaeth, yw dyweyd y dylai iaith—i fod yn bur—gadw o

fewn ei theifynau ei hun, ac ymgadw rhag geiriau estronol. Ceir yng ngwaith yr awduron goreu, megys y *Bardd Cwsg a Drych y Prif Oesoedd*, luaws o eiriau o darddiad tramor neu Seisnwg. Gogoniant yr ieithoedd goreu yw eu hwylusdod naturiol i gorphori geiriau estronol, pan na byddo ynddynt eisoes eiriau hollol gyfystyr. Ar ôl i air estronol wreiddio yn yr ieithoedd Ffrancaeg a Seisnwg, mabwysiedir ef o'r diwedd i'w geirlyfrau, ac fe'i harddelir gan y dysgedigion, a dygir ef i arferiad llafar gwlad. Mae yn ein hiaith ninnau ugeiniau o eiriau estronol o ran eu tarddiad. Pe diarddelid hwynt, edrychai yr hên Gymraeg yn bur lom a noeth. Geiriau estronol yw Beibl, apostol, diacon, psalm, sacrament, ysgarlad, epistol, garlantau, proselyt, seremoniol, catecism, palmant, carpedau, sandalau, pwlpudd, actau, publican, &c. Mae y rhan fwyaf o'r uchod yn eiriau Ysgrythyrol. Yr wyf yn gofyn ynte, pa beth a wnawn i'r fath eiriau? Nid wyf yn gwybod am eiriau Cymreig diledryw sydd byth yn debyg o'u diswyddo; ac yn gymmaint a'u bod wedi gwreiddio yn yr iaith, ac ar lafar gwlad, ofer eu diarddel. Pan fo genym air Cymreig *pur* cyfystyr, fy marn

yw y dylid diarddel y gair estronol. Ond y gamp yw *cael* geiriau Cymreig cwbl gyfystyr, ac oni byddant yn hollol gyfystyr, ni wnant mo'r tro.

Drachefn, ofer cynnyg ffurfio geiriau Cymreig pur am y fath eiriau a *grate, pencil, fender, poker, map, inc, saucer, tepot, sofa, blacklead, mat, stove, biscuit, brandy, coffi, coco, jam, mustard, rice, &c.* Ceisiwyd ffurfio geiriau Cymreig pur am rai o honynt, ond ni lwyddwyd i ddwyn yr un o honynt i arferiad llafar gwlad. Efallai mai gwell fyddai eu gadael fel ag y maent, a'u defnyddio fel geiriau angenrheidiol, a'u dyoddef fel *necessary evils*.

Y mae gwahaniaeth ystyr rhwng y sylwedd-eiriau *sylfaen* a *sylfan*. *Sylfaen* yw maen sail, neu seilfaen (*—foundation stone*). *Sylfan* yw màn neu le sail (seilfan)—*foundation* yn Seisoneg. Y mae cyffelyb wahaniaeth rhwng *bedyddfaen* a *bedyddfan*.

Gellir defnyddio y ffurfiau 'os dianc' neu 'os dihang,' 'os cyrhaedd' neu 'os cyrhaedda,' 'os barn, neu 'os barna,' &c., yn ddiwahaniaeth.

Yr ydym yn anghymmeradwyo y ffurfiau] canlynol, ac yn ystyried y rhan fwyaf o hon-

ynt yn wallus. Wele hwynt—aeddfedrwydd, breniniol, broddegau, athro, cyrnau, castelli, dechry, glewdwr, gwnae, llenorydd, prawfiadau, prydyddwr, sychdwr, tewdwr. Dyma'r ffurfiau cywiraf o honynt,—aeddfedrwydd, breninol, brawddegau, athraw, cyrn, cestyll, dechreua, glewdra (neu glewder), gwnelai (neu gwnai), llenor, profiadau (neu profion), prydydd, sychder, tewdra.

Gwell genym osod *b* (yn hytrach na *p*) yn ysbail, ysbiwr, ysblenydd, ysbryd, ysbyty, hysbys, a dosbarth.

Y mae gwahaniaeth o bwys rhwng yr ansoddeiriau, *annwydog* ac *anwydog*. *Annwydog* (gyda *dwy n*) yw llawn annwyd (—*cold or chilly*), un ag annwyd arno. *Anwydog* (gydag *un n*) yw llawn nwydau, neu nwydwyllt (—*passionate*.) Y mae'n ofynol sylwi ar bethau bychain fel hyn, cyn ymberffeithio.

Gwell genym adael y teitlau a'r graddau heb eu Cymreigio, canys pe Cymreigid hwynt, byddent yn annealladwy ac anystwyth iawn. Ein cyngor ni yw—defnyddier y Seisoneg, B.A., M.A., &c., F.S.A., R.A.M., &c. Goddefer i ni roddi un engraipt er egluro ein meddwl. Dyna'r teitl B.A. yn cael ei gyfieithu i'r Gy-

mraeg mewn *tair* ffurf wahanol, sef, Baglor y Celfyddydau, Gwryf y Celfyddydau, a Mebydd y Celfau. Pwy a all gofio y gwahanol ffurfiau yma yn wastad, heb ymddyrysu ynddynt?

Ffurf wallus yw *uwchaf*: *uchaf* ddylai'r gair fod. Ffurfir yr ansoddair yn y graddau cymhariaethol fel hyn,—*uch* (high), *uwch* (higher), *uchaf* (highest). Yr un yw *uch* ag *uchel*; ac y mae Rowland, fel y tybiwn, yn ystyried *uwchaf* yn ffurf uchelradd reolaidd o *uchel*.

Yr ydym yn ystyried y ffurfiau canlynol yn atgas, ac yr ydym o'r farn fod rhai o honynt yn ymylu ar fod yn wallus,—golau, awdur, chwarau, twymno, borau, derchafu, gobrwyo, cymyl, henafiaeth, broddeg, monachlog, trawgyddol, arnast, cerdyn, ynost, disgrifio, athro, rheieidr, seryddwyr, ogofydd, beddergreiff, dosbeirth, sylfeim. Gellid yn rhwydd wneyd rhestr hirfaith o'r geiriau atgas yma.

Gwneled yr efrydydd y defnydd goreu o'r Geiriadyron, o herwydd drwy hyny y daw o hyd i'r ffurfiau cywir.

Y mae'n oddefol i ddefnyddio y ffurfiau *sy'm* (yn lle *sydd ym*), *sy'n* (yn lle *sydd yn*), a *sy'ng* (yn lle *sydd yng*).

Ffuriau anghywir yw 'ymarfer ei hun' ac 'ymolchi ei hun.' Y mae 'ymarfer' ac 'ymolchi' yn ddigon; neu ynte, 'arfer ei hun' a 'golchi ei hun.' Perwyddiaid o'r ansawdd canolig (*middle voice*) yw 'ymarfer' ac 'ymolchi.' Perwyddiaid o'r ansawdd canolig yw mwyafrif y rhai a ddechreuant yn *ym*.

Dau negydd (two negatives).—Mae dau negydd yn gadarnhaol, ac nid yw'r naill yn dirymu'r llall, fel yn y Seisoneg; megys, 'Ein hamcan yn hyn o waith ydoedd—*nid* boddloni *nac* un blaid *nac* arall,' 'nid oes ganddi *na* thad *na* mam.' Fel rheol, gwasanaetha *dim* a *mo* fel ail negydd; megys, '*Nid* yfwn ni *ddim* gwin,' (JER. xxxv. 6); '*Nid* wyf yn cael *dim* bai ynddo,' (IOAN xix. 6); 'Yr hwn *nid* adwaenai *mo* Joseph, (ACT. vii. 18); '*Nid* oes ganddynt *mo'r* gwin' (IOAN ii. 3). Mae'r Groeg, fel y Gymraeg, yn defnyddio dau negydd yn gadarnhaol.

Ni ofynir gwasanaeth yr *i* yn y brawddegau canlynol, 'ambell i dro,' 'aml i un,' 'llawer i beth,' a 'nemawr i ddyn.' Gadawer hi allan, ac ysgrifener hwynt hebddi, fel hyn,—'ambell dro,' 'aml un,' 'llawer peth,' a 'nemawr ddyn.' Mewn perthynas i ddefnyddio yr *i* (ai peidio)

o flaen perwyddiaid yn y môdd annherfynol, gwêl "Grammadeg" Rowland, tud: 176, 177, a 178, 3ydd argr.

Cyfarfyddir yn dra mynych â'r ffurfiau ang-hywir 'y pethau rhai'n' a'r 'pethau rhei'ny.' 'Y pethau hyn' 'a'r pethau hyny' yw y ffurfiau rheolaidd.

Gellir defnyddio y ffurfiau *odfa* ac *oedfa* yn ddiwanhaniaeth: y mae'r ddwy yn gywir a rheolaidd.

Yn lle y ffurfiau Cymreig—Llynlleifiad (neu Lerpwl), Caerodor, Caerefrog, Manceinion, Caergrawnt, Casnewydd, Almaen, Alpau, Duly, Hafren, Caerbaddon, Rhydychain, &c., defnyddir y ffurfiau Seisoneg yn gyffredin yn awr, megys, Liverpool, Bristol, York, Manchester, Cambridge, &c. Y fath ammharch a defir ar y Gymraeg! Nid ydym ni, dealler, dros gael gair neu enw Cymraeg ar bob gair neu cnw Seisoneg; ond pan byddo hên air Cymraeg cynnefin i'w gael, cadwer at hwnw.

Dau air arall, ag sydd yn goddef llawer o gam ar ddwyllaw dechreuwyr, yw *tragwyddol* a *twyilodrus*. Fel rheol, gadawir yr y flaenaf allan o'r cyntaf, ac ysgrifeniir ef *tragwyddol*. Ond y mae'n amlwg fod y gair yn cael ei

ffurfio yn rheolaidd o'r sylweddair *tragywydd*; o ganlyniad, dylid ei sillebu â dwy *y*. Gosodir un *y* yn ormod drachefn yn *twyllodrus*, a gwneir ef yn *tywyllodrus*. Nid oes a fÿno â *tywyll* o gwbl, ond ei wreiddyn yw *twyll*; telly, dodder un *y* ynddo.

Ffurf wallus ac atgas yw *Peirch*. *Parchedigion*, neu *y* talfyriad *Parchn.*, a ddylid ddefnyddio bob amser am *y* rhif luosog.

Yr ydym o'r un farn â Silvan Evans, y gellir defnyddio y ffurfiau canlynol yn ddiwahan-iaeth, fel yn ogystal gywir,—‘bernir’ neu ‘barnir,’ ‘ceir’ neu ‘cair,’ ‘eir’ neu ‘air’ (elir), ‘carir’ neu ‘cerir,’ ‘gwneir’ neu ‘gwnair,’ &c.

Cofier am roddi y llythyren *h* yn *y* gair *ugain* bob amser pan byddo yr arddodiad *ar* yn ei ragflaenu; megys, un *ar* *hugain*, pump *ar* *hugain*, deg *ar* *hugain*, &c.

Dylid gwahaniaethu rhwng *poblog* a *poblogaidd*. Ystyr *poblog* yw lle yn llawn o bobl (—*populous*); ond ystyr y gair *poblogaidd* yw ‘un adnabyddus i'r bobl,’ ‘un yn cael (neu yn hoffi) gair da’ (—*popular*). Gellir dyweyd am ddyn, ‘y mae hwn-a-hwn yn *boblogaidd* iawn’; ac am dref neu wlad, ‘y mae'r dref-

a'r-dref yn *boblog* iawn.'

Gellir defnyddio y gair *sawl* neu y *sawl* yn unigol yn gystal a lluosog: gwneir felly gan hên awduron enwog.

Tröer *b, d*, ac *g*, yn nherfyniad geiriau, i *p*, *t*, ac *c*, wrth eu treiglo a'u lluosogi; megys, *gwlyb, gwlypach, gwlyped; hyfryd, hyfrytach, hyfryted; teg, tecach, teced*. Y mae un *p* yn ddigon yn *gwlypach*, un *t* yn *hyfrytach*, ac un *c* yn *tecach*.

Y mae tarddiad y geiriau canlynol, heb sôn am berseiniad, yn dyweyd yn amlwg eu bod bob un yn gofyn dwy *tt*,—pysgotty, defeitty, cardotty, marchnatty, gwirotty, bwytty, (tý bwyd), lluestty, heintty, diotty, ysbytty, &c.

'Rhyngddo *ac* ef ei hun,' 'rhyngoch chwi *a* hi,' sydd iawn: nid 'rhyngddo *ag* ef ei hun,' na 'rhyngoch chwi *a* hi.'

Hoffem wneyd ychydig o wahaniaeth rhwng y ffurfiau lluosog *eglwysi* ac *eglwysydd*: gosodem *eglwysi* am gynulleidfaeodd y ffyddloniaid, ac *eglwysydd* am adeiladau cys-segredig. Mae *eglwysau* bron allan o arferiad.

Y mae *canmol* yn fwy cynanol a rhwydd nâ *canmawl*, canys ffurfir yr amserau (*tenses*) yn naturiol o hono, e.e. *canmol, canmola, can-*

molodd, canmolwyd, &c., ac nid canmawl, canmawla, canmawlodd, &c.

Dywed Rowland y gellir defnyddio 'arall' neu 'ereill' (unigol neu luosog) gyda sylwedd-air unigol; megys, y ddau ddyn *arall*, y saith niwrnod *ereill*. Yr ydym yn cydweled ag ef yn hyn.

Nid oes y fath air a *buodd* yn y Gymraeg, ond clywir ef yn fynych mewn ymddiddanion cyffredin mewn rhai parthau o Gymru. *Bu* yw'r amser gorphenol o'r perwyddiad "bod;" a dyna'r ffurf gywir o'r gair. Bai cyffredin arall yw defnyddio *buom* (lluosog) yn lle *bum* unigol.

TRUGAIN, neu y rhif 60. Gwell genym *trigain*, neu *tri-ugain* nâ'r ffurf drosogl *trugain*. Efallai fod *trugain* yn llawn môr rheolaidd a *triqain*, ond ystyriwn yr olaf yn fwy cyfanol.

Y mae i'r gair Cymraeg *arch* dri o wahanol ystyron. *Arch* (*eirch*—lluosog) ydyw trwnc, coffr. neu gist; *arch* (*eirchion*—lluosog) ydyw cais, dymuniad, neu erfyniad; ac *arch* (*archau*—lluosog) ydyw pen, prif, neu penaf—megys, llŷs yr archau—*court of arches*. Cofied yr efrydydd fod y ffurfiau uchod yn wahanol yn y rhif luosog.

AI ac AU. Y mae lluwys o ddechreuwy'r yn syrthio i benbleth ac anhawsdra yng nghylch y ddau derfyniad uchod. Cofied yr efrydydd mai terfyniad lluosog i sylweddeiriau yw *au*, fel y dywedwyd yn barod; ond am *ai* —terfyniad perwyddiadol ydyw fynychaf. Dylai yr etrydydd gofio, beth bynag, nad yw *au* un amser yn defyniad perwyddiadol. Y mae ysgrifenyddyr tra medrus,—ar brydiau, yn anghofio gwahanol safleoedd *ai* ac *au*, canys gwelir sylwau (yn lle sylwai), edrychau (edrychai), buasau (buasai), dywedasaau (dywedasai), &c.

Gocheler defnyddio *iachiau* am *iachau*, a *Iachawdwr* am *Iachawdwr* : bai anesgusodol.

Gair trwsogl iawn yw *rhydd-did*. Nid oes ei eisieu o gwbl gan fod *rhyddid* yn ateb yr un gwasanaeth yn union. O'r ddau y mae *rhyddid* yn fwy cywir a chynanol.

Ni a osodwn yma, fel diweddglo i'r bennod hon, lechres o'r TALFYRIADAU (*Abbreviations*) a welir yn gyffredin mewn llyfrau neu newyddiadyron. Ychwanegwn y termau Seisoneg mewn mânau, canys bydd hyny yn gynnorthwy nid bychan i'r efrydydd.

Dyma'r lechres :—

- A.C.—Athraw y Celfyddydau *M.A.*
 A.C.H.—Aelod o'r Gymdeithas Hynafiaethol *F.S.A.*
 ADN.—Adnod.
 A.E.—Archesgob.
 ANAD.—Anadnabyddus *Anonymous.*
 ANRH.—Anrhydeddus *Hon.*
 ARGR.—Argraphiad *Edit.*
 A.S.—Aelod Seneddol *M.P.*
- B.A.—Blwyddyn yr Arglwydd.
 B.B.—Blwyddyn y Byd
 B.B.D.—Bardd Braint a Defod.
 B.C.—Baglor y Celfyddydau *B.A.*
 B.D.—Baglor Duwinyddiaeth *B.D.*
 BG.—Barwnig *Bart.*
 BL.—Blwyddyn Yr.
 B.M.—Baglor Meddyginiaeth *B.M.*
- C.—Ceiniog.
 CADB.—Cadben *Capt.*
 CADF.—Cadfridog *Gen.*
- C.C.—Cyn Crist *B.C.*
 C.P.—Curad Parhäus *P.C.*
 CR.—Cymharer *Com.*
 CYF.—Cyfrol, Cyfieithad, neu Cyfeillion.
 CYH.—Cyhoeddwr *Publ.*
- D.A.—Doethor Athroniaeth *D. of Phil.*
 D.C.—Deheudir Cymru; hefyd, Doethor Cyfreithiau.
 D.D.—Doethor Duwinyddiaeth *D.D.*
 D.G.—Deon Gwladol *R.D.*
 D.M.—Doethor Meddyginiaeth *D.M.*
 DR.—Doctor, Doethor *Dr.*
 D.S.—Dalier Sylw.
- EDR.—Edrych *See.*
 E.E.—Er Engraipht.
 E.S.—Eglwys Sefydledig
 ESG.—Esgob.
 G.C.—Gwryf y Celfyddydau *B.A.*; hefyd, Gogledd Cymru.
 G.D.—Gwryf Duwinyddiaeth *B.D.*

G.H.—Gan hyny.
 GOH.—Gohebydd.
 GOL.—Golygydd.
 GR.—Groeg.
 GWYDD.—Gwyddion-
 adyr *Encyc.*

HYB.—Hybarch *Ven.*
 H.Y.—Hyny yw.
 H.—Hebraeg.
 IT.—Italaeg.
 LL.—Lladin.

M.B.—Marchog y Ba-
 ddon, neu Mesur Byr
 M.C.—Mebydd y Cel-
 fau *B.A.*, neu Mesur
 Cyffredin
 MG.—Marchog *Knt.*
 M.G.—Marchog y Gar-
 das *K.G.*
 M.H.—Mesur Hir.
 MIL.—Milwriad *Col.*
 MR.—Meistr *Mr.*
 M.S.—Mesur Salm.
 NAD.—Nadolig *Xmas.*

O.B.—Oed y Byd.
 O.C.—Oed Crist.
 O.Y.—Ol-ygrifen *P.S.*

P.—Punt.
 PARCH.—Parchedig
Rev.
 PEN.—Pennod *Chap.*

PROFF.—Profeswr
Prof.
 PRYD. F.—Prydain
 Fawr *Gt. B.*

RH.—Rhif *No.*
 RHAG.—Rhaglaw *Dep.*
 RHYD.—Rhydychen *Ox*

S. neu ST.—Sant *St.*
 S.—Swllt neu Sylw-
 eddair.

SEIS.—Seisoneg.

T. neu TUD.—Tudalen
P.

T.C.A.—Taleithiau Cy-
 funol America *U.S.A*

T.N.—Testament Ne-
 wydd *N.T.*

U.D.A.—Unol Daleith-
 iau America *U.S.A.*

UN.—Unigol.

Y M H.—Ymherawdwr
Emp.

Y.H.—Ynad Heddwch
J.P.

YSG.—Ysgrifenydd *Sec*
 YSG. MYG.—Ysgrifen-
 ydd Mygedol *Hon.*
Sec.

Ysw.—Yswain *Esq.*

&.—a, ac.

& c.—ac felly yn y
 blaen.

A T T O D I A D .

*Llechres o eiriau dyrys a thywyll, o gyffelyb
sain, ond o wahanol ystyron.*

A

Ab neu ap, mab.	Adfudd, colled, niwed.
[^] Ab, epa.	Adfydd, ysgatfydd, ef allai.
Abar, celain, ysgerbwd.	Adgan, ystlysgan (<i>epi- sode</i>).
Aber, cydlif (<i>conflu- ence</i>), porthle.	Adgen, cynnydd, ty- fiant.
Achan, cân, emyn.	Adnäu, adlefain.
Achen, llinach; pais arfau.	Adneu, ernest, gwystl.
Achlud, cuddfa, cys- godfan.	Aeleu, tristwch, cys- tudd.
Achludd, rhwystr, a ttal	Aelïau, talcenau.
Adolygu, adchwilio	Afall, pren afalau.
Atolygu, deisyf.	Afell, mynwes.
Adwyr, adwyrrol.	Agerfa, awyrdwll, ag- orfa.
Adwyr, anwyr.	Agerfad, agerlong (<i>steamboat</i>).

Anghenog, anghenus,
rheidus.

Anghènog, heb gèn,
digèn.

Aid, bywyd, hoedl.
Aidd, yni, bywiog-
rwydd.

Ael, talcen.
Ail, eilfed.
Aill, dewisedig, ethol-
edig.

Air, dysgleirdeb.
Aer, eler; etifedd.
Aur, eurliw (*gold*).

Alor, dysgl; trysorfa.
Allor, bwrdd y cym-
mun (*altar*).

Amaeth, amaethwr.
Ammaeth, ammheuth-
yn.

Anhawdd, dyrys, af-
rwydd.
Annhawdd, annhodd-
edig (*insoluble*).

Ansawd, person, dyn-
sawd.
Ansawdd, cyflwr.

M

Àr, uwch law.

Âr, tir âr.

A'r, ac yr, neu ag yr.

Arail, amddiffyn.
Araul, goleuedig.

Arwaen, rhwyg.
Arwain, tywys.
Arwen, gwên, neu brig-
wen.

Asswyno, absennoli.
Aswyno, ymbil.

Awenau, awenesau.
Awènau, awènau ffrw-
yn.

B.

Badd, ymdrochle (*bath*)
Baedd, mochyn.
Baidd, beiddiad, her-
iad.

Bai, trosedd, gwall.
Bai, byddai.
Bau, corn, ewin.

Bâl, moel, bryn; neu
sypyn.

Bâl, â thalcen gwyn iddo.	Bus, y wefus. Bys, unigol o 'bysedd.'
Bela, blaidd ; ymladd.	Bwytty, tŷ bwyd.
Bele, carlwm.	Bwyty, efe a'i bwyty.
Beli, difrod.	C.
Belu, ymryson.	Cadair, eisteddfa.
Berrwy, llyffethar.	Cadar, tarian.
Berwy, berwy'r dwfr (<i>water cress</i>).	Cader, caerfa.
Beryw, pren meryw (<i>juniper</i>).	Cael, caffael.
Bilwg, gylyf (<i>billhook</i>).	Cail, buarth, corlan.
Bulwg, ydig, efrau.	Caul, cylla llo.
Brud (brut), hanes.	Cae, maes
Bryd, meddwl.	Cau, y weithred o gau ; gwâg.
Bri, anrhydedd.	Cân, cerdd, neu canu.
Bru, croth.	Cân, cander ; peillied.
Bry, uchel, fry.	Cân, cant ; càna ; gan hyny.
Buchod, lluosog o bu- wch.	Canu, lleisio, canu.
Bychod, lluosog o bwch (gafr)	Cànu, gwynu.
Buddai, llestr corddi, ennillwr.	Cannu, cynnwys.
Byddai, o'r perwydd- iad 'bod.'	Clai, llaid (<i>clay</i>)
	Clau, buan
	Clustiog, â chlustiau iddo.
	Clustog, gobenydd.

Cob, coryn ; ergyd, argae.	Chwyn, efrau.
Côb, mantell ; clust aradr.	Chwŷn, ysgogiad.
	D.
Crud, amlen ; gorchudd	Dal, daliad ; efe a ddal.
Cryd, cawell ; cryndod.	Dâl, deilen ; efe a dâl.
Cun, hoff ; blaenor.	Del, tlws ; caled.
Cyn, cyntaf, blaenaf.	Dêl, o'r perwyddiad
Cŷn, gaing (<i>wedge</i>).	‘daw.’
Cymru, y wlad.	Dial, cospi.
Cymry, y trigolion.	Deial, heulfynag (<i>dial</i>)
Cyrenid, cyntafanedig.	Dilin, coeth.
Cyhenid, naturiol.	Dilun, afluniaiidd.
	Dilyn, canlyn.
Cunar, hwch fagu.	Dirnad, amgyffred.
Cynar, yr âr cyntaf.	Dyrnaid, llonaid dwrn.
Cynnar, boreuol.	
	Dirus, dibetrus.
Cynnydd, mwyhad.	Durus, o dur.
Cynydd, heliwr.	Dyrys, afrwydd.
Cynghordy, ty cynghor	Diriad, cymhelliad.
Cynnordy, porthdy.	Diriaid, rhai drwg.
Cynordy, ty cwn.	Diraid, afreidiol.
Cywain, cludo.	Dôl, dolen ; gwaen
Cywen, iar fechau.	Dòl, ffol ; delwan (<i>doll</i>)

Drud, gwerthfawr, costus, gwron.

Dryd, cynnil, cynnildeb.

Dihewyd, marwaidd, digyffro.

Dyhewyd, duwiolfrydedd; ymlyniad.

Diserth, anserth.

Dyserth, anialwch.

E.

Eiddew, iorwg.

Iuddew, un o'r Iuddewon.

Erfin, maip.

Erfyn, arf; deisyf.

Esgid, am droed.

Esgud, dyfal.

Eirin, eirinen.

Eurin, euraidd.

Euryn, darn aur.

Ewin, ewin bys.

Ewyn, ewyn y dwfr, ysgai.

FF.

Ffaeth, brâs, rhonc.
Ffaith, gwirionedd.

Ffer, oerfel, rhyndod.
Ffêr, cryf, tew; mi-gwrn.

Ffurf, llun, agwedd.
Ffyrf, braisg, tew.

Ffin, terfyn.
Ffun, anadl; sypyn.
Ffyn, lluosog o ffôn.

G.

Gfîn, penlîn.
Glun, pen y glun.

Glÿn, dyffryn.
Glÿn, glynol, ymlyniad; efe a lÿn.

Gofyniadau, holiadau.
Gofynion, hawliau.

Gori, deor.
Gôru, achosi, gwneyd.

Gofÿnydd, rhiw, tyle.
Gofynydd, gofynwr.



Gŵn, yn gwybod, dryll.	Hael, rhwydd.
Gŵn, gwisg (<i>gown</i>).	Hail, twysged; eilfed.
	Haul, yr haul.
Gŵydd, llwdu gŵydd; gwyddfod.	Haner, o'r perwyddiad 'hanu.'
Gwýdd, gwybodaeth; peiriant gwau; coed.	Hanner, un rhan o ddwy.
Gwadd, twrch daiar.	
Gwaedd, llef.	Heinio, heidio.
Gwaudd, merch yng nghyfraith.	Heinnio, heintio.
Gweliau, archollion.	Heli, dwfr hallt.
Gwelyau, i gysgu.	Hely, helfa, hela.
Gwull, blodau.	Helmau, penwisgoedd milwyr arfog.
Gŵyll, tueddiad.	Helmydd, tasau gwair.
Gwyll, tywyll, tywyll- wch.	Hilio, cynnyrchu.
Gwŷs, gwyddys; rhy- budd.	Hulio, taenu, gwisgo.
Gŵys, dwfn, dyfnder; gwladogion.	Hin, tywydd.
	Hun, cwsg; hunan.
Gynau, llaeswisgoedd; rhif luosog o <i>gân</i> .	Hŷn, hwn, hon, y peth hyn.
Gynau, drylliau (rhif luosog o <i>gŵn</i> .)	Hŷn, hynach; hynaf- iaid.
Gynneu, ychydig am- ser yn ôl.	Hir, maith.
	Hur, cyflog.

Hona, y wraig yna.
Hòna. a haera.

Hud, hudoliaeth.
Hyd, hyd at, ar hyd.

Hudd, caddugol; gwyll.
Hydd, carw.

Hwnt, draw, tu draw.
Hw̄ynt, hwy.

I.

Iachawdwriaeth, iach-
awdwriaeth *yr enaid*.
Iechydwriaeth, Iech-
ydwriaeth *y corph*.

Ieuentid, pobl ieuaic.
I e u e n c t y d, tymmor
ieuenctyd.

Is, dan, isod.

Ûs, peiswyn.

I waered, i lawr.
I wared, i waredu.

LL.

Llaes, hîr.
Llais, llef.

Llai, mwy bychan;
laid.

Llau, lleuen.
Lläu, ymledu; lladd.

Llawrudd, llofrudd.
Llawrydd. hael, un
rhydd ei law.

Llèn, gorchudd.
Llên, llenyddiaeth.

Lli, llif, llifeiriant.
Llu, torf, min ai.
Lly, o 'llyfu.'

Llifio, tori â llif.
Llifo, ffrydio.

Lliw, paent, gne.
Llyw, rheolwr; llyw
llong.

Lluddedig, blinedig.
Lluddiedig, rhwystr-
edig.

Lluest, bwthyn; gwer-
syllfa.
Llyest, lluosbed, aml-
droed.

Llyman, baner.
Llyman, noeth.

Llus, grawn, mwyar.
Llys, neuadd, brenhin-
dy.

Llusg, car llusg, ysled.
Llysg, darn o bren ; efe
a losga.

Llwynau, yr arenau.
Llwyni, perthi.

Llin. llinell ; edef ; hâd
llin.

Llun, ffurf.
Llŷn, llynwyn, pwll.
Llŷn, heintus, glynol.

Llwythau, tylwythau.
Llwythi, beichiau.

M.

Mae, y mae.
Mai, taw, tai.
Mau, eiddof fi.

Maedd, cernod.
Maidd, llaeth glâs
(*whey*).

Maen, careg.
Main, teneu.

Mâu, malu'n fân, man-
hâu.
Mâu, nodi.

Melin, i falu.
Melyn, lliw melyn.

Merlyn, ceffyl (pony)
Merllyn, pwll, llynwyn.

Milod, bwystfilod.
Mulod, asynod.

Mŷn, gwefus ; ymyl.
Mun, llaw ; yr hyn a
lunia.
Mŷn, llwdn gafr ; ew-
yllys ; efe a fyn.

Mid, twba (*tub*)
Mud, dystaw ; sym-
mudiad.
Myd, cynddrych, sampl

Mwnai, arian bathol.
Mwnau, meteloedd

Mir, teg, hardd.
Mur, gwâl.
Myr, moroedd.

Munud, ystum.
Mynud, moesgar.

Mynyd, y 60fed ran o awr.

Mynu, gorfodi, ceisio.
Myny, i fyny.

Mysgi, cymmysgfa ;
annhrefn.
Mysgu, cymmysgu.

N.

Nadu, udo, gwaeddi.
Naddu, tori, trychu.

Neithior, priodas.
Neithiwyf, y nos o'r blaen.

Nith, merch brawd neu chwaer.
Nyth, nythaid (*nest*).

Noc, hên ffurf am *nac*.
Nog, hên ffurf am *nag*.

Nudd, tarth, niwl.
Nydd, nyddiad, troad.

Nwyd, tuedd.
Nwydd moddion, defnydd.
Nwyf, bywiogrwydd.

O.

[^]Od, eira.
Od, os ; hynod.

Odi, bwrw eira.
Oedi, gohirio.

Offeren, gwasanaeth
Eglwys Rhufain
(*mass*).

Offeryn, arf, erfyn.

Ogau, llawn o fywyd ;
ogedi.
Ogi, llyfnu, ogedu.

P.

Pannu, pantu ; dychrynu.

Panu, panu brethyn, tewhâu.

Pennodol, a berthyn i bennod.

Penodol, neillduol.

Peri, gwneyd, achosi.
Peru, pereiddio, cynnal.
Pery, a bery (parhâ).

Personau, dynion.
Personiaid, offeiriaid.

Pobdy, ty pobi.
Pobtu, o bob tu.

Pridd, gweryd, daiaren
Prudd, athrist, difrifol.
Prydd, brâs ; dyffryn.

Prif, penaf.
Pryf, lluosog o 'pryfyn.'

Punt, penadyr.
Pynt, pontydd.

Pylu, gwneyd yn bwl.
Pyllu, gwneyd yn bwl.

RH.

Rhactal, talaith.
Rhagdal, blaendal.

Rhaglaw, dirprwywr.
Rhagllaw, o hyn allan.

Rhi, pen.
Rhu, rhuad.
Rhy, gormod.

Rhidd, rhwystr.
Rhudd, coch.
Rhydd, afrwym.

N

Rhiniau, rhinweddau.
Rhinniau, rhygnau.

Rhull, rhês.
Rhull, byrbwyll, rhydd.
Rhyll, hollt, agen.

Rhiw, tyle, gallt.
Rhyw, rhywogaeth.

Rhufon, coch.
Rhyfon, grawn Corinth
(*currants*).

Rhyddiaeth, c y f l w r
rhydd.
Rhyddiaith, iaith rydd.

S.

Saeth, picell.
Saith, rhif saith.

Sêr, sŷr (lluosog o *seren*)
Sêr, bilwg.

Seilio, sylfaenu.
Selio, gosod sêl ar.

Siad, suad.
Siâd, siol, iad.

Siol, yn sio.
Siol, penglwg.

Sudd, nodd.	Tànu, gwasgaru.
Sydd, sy, mae.	Tanu, gosod ar dân, tanio.
Sug, nodd.	Tànnau, tantio (o tant).
Syg, cadwen, trêș.	Tâl, uchel, ban; talcen.
Sirian, ceirios.	Tâl, taledigaeth.
Suran, deilen sur.	Talaeth, rhandir.
Sugn, attyniad; nodd.	Talaith, rhactal (<i>diadem</i>).
Sygn, cylch, rhôd.	Tanau, ufelau (lluosog o tân).
Sylfaen, maen sail, seilfaen.	Tànnau, llinynau, tan- nau telyn.
Sylfan, man sail, seilfan.	Teiliwr, gwnredydd.
Sylfon, testyn.	Teilwr, bwriwr tail.
Sylldy, masnachdy.	Teru, coethi; pwdu.
Sylltty, trysorlys.	Tery, efe a dery (<i>tar- awa</i>).
Sythi, peth a ddal yn syth; pelydryn.	Traeth, glân y môr.
Sythu, rhynu, fferu.	Traith, treithawd.
Sur, chwibl; chwerw.	Twr, swp, pentwr.
Sър, sêr (lluosog o 'ser- en).	Twr, amddiffynfa.
Syr, meistr (<i>sir</i>).	Twys, tywysen yd.
T.	Tywys, arwain.
Taer, egniol.	
Tair, benywaidd o 'tri.'	

U.

Uch, uchel.
Ych, eidion.

Ufelin, ufelig, tânol.
Ufelyn, yr elfen dân.

Uffarn, migwrn.
Uffern, annwn.

W.

Wyn, y rhif luosog o oen
Wŷn, o'r ansoddair
gwyn.

Wyr, perthynas (lluos-
og wyrion.)
Wyr, o'r perwyddiad
'gwybod,' efe a wŷr.

Y.

Ymennyn, ennyn ei
hun.

Ymenynnu, gwneyd ym-
ennyn.

Ymladd, brwydro.
Ymlâdd, lladd ei hun.

Yntau, efe hefyd.
Ynte, ai, neu; gan
hyny.

Ysgar, ysgariaeth.
Ysgâr, cyfran.

Ysgrûd, ysgerbwd.
Ysgryd, cryndod.

Ystor, math o byg, ys-
tawr (*resin*).
Ystôr, digonedd, an-
ledd.

*Llechres o eiriau yn gofyn gwasamaeth
cydseiniad dyblyg.*

GEIRIAU YN GOFYN DWY M.

Anghymmaint.	Cymeradwyo.
Anghymmedrol.	Cymeriad.
Anghymeradwy	Cymmeryd.
Anghymmesur.	Cymmesur.
Anghymmodlawn	Cymmodi.
Anghymmwynas.	Cymmodloni.
Anghymmysg.	Cymmrawd.
Angrammadegol.	Cymmun.
Ammheu.	Cymmuno.
Ammharchus.	Cymmwynas.
Ammharod.	Cymmydog.
Ammhossibl.	Cymmynwr.
Ammhrydlawn.	Cymmysg.
Ammhur.	Chwimmwth.
Ammhwyllog.	Dammeg.
Ammod.	Diammheu.
Ammwlch.	Iiymmod.
Cam march.	Dychymmyg
Cwmwd.	Dygymmod.
Cymmal.	Esgymmuno.
Cymmalwst.	Gommedd.
Cymmanfa.	Grammadeg.
Cymmedrol.	Gwammaldra.
Cymer.	Mammaeth.

Pummed.	Tymmestl.
Rhemmwth.	Tymmor.
Symmud.	Ymsymmud.
Tymmer.	Ymmod, &c.

GEIRIAU YN GOFYN DWY N.

Absennol.	Annibyniaeth.
Adennill.	Annichellgar.
Adgynnull.	Anniddig.
Annadleuadwy.	Anniddos.
Annarbodaeth.	Annigonol.
Annattodol.	Anniofal.
Annechreuol.	Anniolchgar.
Annedwydd.	Anniweirdeb.
Annedd.	Annoeth.
Annefyddiol.	Annog.
Anneisyfol.	Annos.
Annelu.	Annuwiaeth.
Annelwig.	Annwn.
Anner.	Annyddan.
Annewisol.	Annymunol.
Annhebyg.	Bannas.
Annheg.	Bannod.
Annheilwng.	Cannoedd.
Annheimlad.	Cunnog.
Annhirion.	Cyfannedd.
Annhoddadwy.	Cynnal.
Annhosturi.	Cynneddf.
Annhraethadwy.	Cynnefindra.
Annhrefn.	Cynnifer.
Annrhugarog.	Cynnildeb.
Annhrwsiadus	Cynnilo.
Annhymmerus.	Cynniwair.

Cynnorthwy.	Hanner.
Cynnrychiol.	Hollbresennol.
Cynnud.	Honiannol.
Cynnulleidfa.	Hynafiannol.
Cynnwys.	Llifiannu.
Cynnydd.	Llwyddiannus.
Cynnyg.	Mannod.
Cynnyrch.	Minnau.
Cynnysgaeth.	Moliannus.
Chwannog.	Mwyniannau.
Chwennyach.	Nennig.
Cynnwynol.	Nerthiannol.
Cynnwysfawr.	Ninnau.
Cynnwysiad.	Noethiannol.
Dannedd.	Offeriannu.
Dannod.	Oliannol.
Dyfynnod.	Pannas.
Diannod.	Peiriannwr.
Enmill.	Pennill.
Ennyd.	Pennod.
Ennyn.	Porthiannus.
Ffyniannus.	Presennol.
Ffynnon.	Punnoedd.
Ffynnonell.	Rhinniau.
Ffynnoni.	Teithiannol.
Gofynnod.	Trigiannol.
Gorwahannod.	Tyciannus.
Gwahannod.	Unnaws.
Gwennol.	Unnerth.
Gynneu.	Ymgynnal.
Gogoniannau.	Ymgynnefino.
Gwynnon.	Ymgynnull.
Haeddiannol.	Ymgynnyg, &c.

GEIRIAU YN GOFYN DWY S

Anghysson.	Cyssain.
Anghysswllt.	Cyssegrlan.
Asswyn.	Cysswyn.
Bydyssawd.	Dadgyssylltu.
Cyssawd.	Digysswllt.
Cyssefin.	Essill.
Cyssegr.	Lluossain.
Cyssodi.	Messaig.
Cysson.	Trawssylweddiad.
Cysswllt.	Trawssymudiad.
{Cyssylltiedig.	Yssigfa.
{Cyssylltedig.	Yssigo, &c.

GEIRIAU YN GOFYN DWY T.

Abatty.	Cardotty.
Attal.	Clustlws.
Attaledig	Coettir.
Attaliadwy.	Cyttir.
Attegu.	Cyttyfu.
Attodiad.	Dattod.
Attreiglo.	Dattroi.
Attwf.	Defeitty.
Attynu.	Diattreg.
Attaliwr.	Diotty.
Attalu.	Dattreiglo
Attori.	Gwaettir.
Attrefu.	Gwastattir.
Attosi.	Gwestty
Attybio.	Gwirotty.
Attycio.	Gwasgotty.
Blotty.	Gwlatty.
Bwytty.	Hafotty.

Heintty.	Sylltty
Llettem.	Tafotrwm.
Lletty.	Tlotty.
Llettywraig.	Trottrwm.
Lluestty.	Wttres.
Llygeittu.	Ynfytty.
Marchnatty.	Ysbytty.
Newitty.	Ysgryttian.
Pysgotty.	Ytty.
Rheitty.	Yttir, &c.

NODIAD.

Gallem chwyddo y Llechres uchod i fwy o faintioli; ond oddiwrth yr engreiphtiau a nodwyd, gall yr Efrdydd yn hawdd ganfod *pa eiriau* sydd yn gofyn Cydseiniaid Dyblyg.

DIWEDD.

